Croeso Cymru

Canllaw i Gynllun Graddio Seren

Llety Hunanddarpar

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

Adran	Manylion		Tudalen
1	**Croeso a Nodyn Pwysig**		**2**
2	**Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn**		**2**
3	**Beth yw Graddio Croeso Cymru?**		**3**
4	**Sut mae Graddio'n gweithio?**		**3**
5	**Eithriadau**		**5**
6	**Tabl Cyfeirio Cyflym**		**6**
7	**Canllaw ar Gyflawni Graddiad Seren Benodol**		**11**
	7.1	Y Tu Allan	12
	7.2	Glendid	15
	7.3	Effeithlonrwydd Rheoli	18
	7.4	Ardaloedd Byw a Bwyta	21
	7.5	Ystafelloedd Gwely	24
	7.6	Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau	29
	7.7	Y Gegin	33
	7.8	Cyfleusterau ychwanegol fel golchdy, cyfleusterau hamdden e.e. pwll nofio	38
8	**Gofynion Cyfleusterau sy'n Gymwys i Bob Lefel Graddiad Seren**		**40**
	8.1	Gofynion Cyffredinol	41
	8.2	Cynnal a Chadw	42
	8.3	Iechyd, Diogelwch a Diogeledd	42
	8.4	Y Tu Allan	43
	8.5	Glendid	43
	8.6	Effeithlonrwydd Rheoli	43
	8.7	Y Tu Mewn	44
	8.8	Ardaloedd Byw a Bwyta	45
	8.9	Ystafelloedd Gwely	46
	8.10	Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau	48
	8.11	Y Gegin	50
	8.12	Rhestr Eiddo'r Gegin	51
9	**Cod Ymddygiad**		**52**
10	**Amodau ar gyfer Cymryd Rhan**		**53**
11	**Beth i'w wneud os byddwch yn anghytuno â'r Graddiad Seren a roddwyd**		**54**
	Manylion Cysylltu		**54**

1 Croeso i Safonau Sicrwydd Ansawdd Croeso Cymru

Er 2006, mae Visit England, Visit Scotland a Croeso Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd, gyda chymorth y Llywodraeth, i roi Safonau Cyffredin ar waith i asesu ansawdd eiddo hunanddarpar i dwristiaid. Mae Bwrdd Twristiaeth Gogledd Iwerddon a'r AA wedi ymuno â'r partneriaid presennol erbyn hyn.

Bydd Croeso Cymru yn defnyddio gofynion y safonau cyffredin hyn i bennu graddiad Seren ar gyfer eich eiddo.

Gwella safonau ansawdd

Mae cael cynnyrch llety o safon i'w gynnig i gwsmeriaid yn rhan annatod o gael diwydiant cystadleuol o'r radd flaenaf yng Nghymru. Mae Croeso Cymru eisiau gweithio gyda'r diwydiant yng Nghymru i sicrhau y gall ein llety barhau'n gystadleuol gyda chyrchfannau twristiaeth eraill.

I gyflawni cynnyrch o safon, rhaid i bob elfen o brofiad yr ymwelydd, o'r ymholiad cyntaf hyd nes y bydd yn gadael am adref, fodloni disgwyliadau'r cwsmer neu ragori arnynt hyd yn oed.

Mae codi safonau llety yn hanfodol i ddatblygu twristiaeth yn y dyfodol yng Nghymru, ac felly rydym yn eich annog i weithio gyda Croeso Cymru trwy ein cynllun graddio sy'n gosod safonau sy'n union yr un peth â'r rhai a weithredir gan Visit England, Visit Scotland, Bwrdd Twristiaeth Gogledd Iwerddon a'r AA.

Y manteision

Mae cynlluniau Sicrwydd Ansawdd Croeso Cymru yn rhoi gwerth gwych am arian ac yn cynnig nifer o fanteision.

Trwy ymuno, cewch gyfleoedd i hyrwyddo, fel:

- Eich rhestru ar wefan **www.visitwales.com**, yn ogystal â mynediad at gyhoeddiadau ac ymgyrchoedd marchnata Croeso Cymru.
- Sesiynau adborth manwl ar ôl yr asesiad, ac adroddiad dilynol gan Aseswyr Ansawdd profiadol*.
- Cewch eich cynnwys ar rwydwaith y Canolfannau Croeso*.
- Cewch arddangos tystysgrif sy'n dangos eich graddiad Seren.
- Cewch arwyddion os byddwch yn dymuno.
- Cewch ohebiaeth reolaidd gan Croeso Cymru.

* Gall fod trefniadau gwahanol os ydych yn gosod eich eiddo trwy Asiant – gwiriwch gydag ef/hi.

2 Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn

Rydym eisiau i'r llyfr hwn roi syniad da i chi o beth sydd angen i eiddo hunan ddarpar ei wneud i gael graddiad Seren Croeso Cymru. Rydym yn dechrau trwy egluro yn gryno beth yw graddio ac yna'n manylu am y drefn a ddilynwn i bennu graddiad Seren terfynol i'ch eiddo (Tudalennau 3 i 5).

Ar ôl egluro'r camau, rydym yn darparu tabl cyfeirio (Tudalennau 6-9) sy'n rhoi cipolwg i chi o'r sgorau a'r cyfleusterau a ddisgwylir ar bob lefel graddio Seren.

Mae ymweliad ein Haseswr Ansawdd hefyd yn cynnwys gwirio bod y cyfleusterau angenrheidiol ar gyfer pob graddiad Seren yn bresennol. Mae'r manylion i'w cael o dudalen 38 ymlaen.

Mae cydymffurfio â Chod Ymddygiad Croeso Cymru yn rhan angenrheidiol o gael graddiad Seren, ac rydym yn rhestru'r manylion ar dudalen 50.

Rydym eisiau i chi fod yn gwbl fodlon â phroses gyfan yr asesiad ansawdd, ond os nad ydych, ar dudalen 52, dywedwn wrthych beth ddylech ei wneud.

Felly...

3 Beth yw Graddiad Ansawdd Seren Croeso Cymru?

Graddiad ansawdd yw'r asesiad o ansawdd cyffredinol eiddo, er mwyn gosod yr eiddo hwnnw ar raddfa rhwng 1 a 5 Seren, gyda 5 Seren yn dynodi'r ansawdd uchaf. Mae'r ymweliad graddio hefyd yn gwirio bod cyfleusterau penodol, a ddisgwylir gan gwsmeriaid ar rai graddau Seren, yn bresennol. Yna mae gan gwsmeriaid sylfaen ar gyfer cymharu'r gwahanol fathau o eiddo sydd ar gael iddynt yng Nghymru, a dod o hyd i rywle i aros sy'n ateb eu gofynion a'u disgwyliadau.

Trwy roi adroddiad manwl i chi o'r asesiad, mae ymweliad graddio Croeso Cymru yn eich helpu chi, y darparwr llety, i gynnal a datblygu ansawdd eich eiddo. Mae'r llyfr hwn yn rhoi arweiniad i chi am beth sy'n ddisgwyliedig ar bob lefel ansawdd ar gyfer pob agwedd ar yr eiddo, a bydd yr Aseswr Ansawdd yn cyfeirio at hyn wrth ymweld â chi.

Terminoleg

Trwy gydol y llyfr hwn, byddwch yn gweld geiriau fel "da", "da iawn" a "rhagorol" – maent yn dynodi lefel esgynnol o ansawdd yn fras yn unig. Mae'r safonau hyn yn nodi mewn termau cyffredinol, ddisgwyliadau cyffredin cwsmeriaid ar bob lefel Seren. Nid ydynt yn gyfarwyddol nac yn ddiffiniol, oherwydd mae sawl agwedd a dull o gyflawni ansawdd uchel.

4 Sut mae Graddio Ansawdd yn gweithio?

Mae tair elfen i'r broses sy'n arwain at radd neu raddiad ansawdd.

Cam 1 – Mae Aseswr Ansawdd Croeso Cymru yn rhoi sgôr i'r eiddo cyfan.

Cam 2 – Yna mae'r Aseswr yn gwirio bod elfennau penodol o'r eiddo yn bodloni'r hyn a elwir yn "Gymhwyswyr Adrannol" o ran ansawdd.

Cam 3 – Yn olaf, bydd yr Aseswr yn gwirio bod y gofynion cyfleuster, sy'n berthnasol i'r graddiad Seren, yn bresennol.

Cam 1

Mae'r ymweliad yn dechrau gyda'n haseswr ansawdd yn cynnal asesiad gwrthrychol, ansoddol o bob agwedd ar eich eiddo, gan ddechrau gyda'r tu allan i'r adeilad, gan gynnwys y tir ac unrhyw lefydd parcio, cyn asesu'r tu mewn i gyd.

Rhoddir sgôr rifol i bob agwedd a asesir ac mae'r sgôr honno yn cyfateb i ddisgrifiad o lefel ansawdd. Defnyddir graddfa o 1 i 5, felly os yw rhywbeth o ansawdd Arbennig i Ragorol, bydd yn derbyn 5 pwynt; os ystyrir ei fod yn Dderbyniol, rhoddir sgôr o 1. Er mwyn cael gwared ar unrhyw ragfarn, mae ein haseswyr ansawdd wedi eu hyfforddi'n drwyadl ac yn dilyn canllawiau a chyfarwyddiadau pendant. Mae'r gwerthoedd pwyntiau gwahanol yn dynodi lefelau esgynnol o ansawdd fel hyn:

- Ansawdd Arbennig i Ragorol – 5 phwynt
- Ansawdd Da Iawn i Arbennig – 4 pwynt
- Ansawdd Da i Dda Iawn – 3 phwynt
- Ansawdd Gweddol i Dda – 2 bwynt
- Ansawdd Derbyniol – 1 pwynt

Ar ôl llenwi ffurflen yr adroddiad a phennu'r sgorau, cyfrifir y cyfanswm, a rhoddir sgôr canran ar gyfer ansawdd yr eiddo cyfan. Trwy edrych ar ystod canran y band Seren, mae'r Aseswr Ansawdd yn cael awgrym cychwynnol o beth *allai'r* graddiad Seren fod yn y pen draw:

Graddiad Seren	% cyffredinol sydd ei angen	Rhaid i lendid* fod o leiaf
1 Seren	34 – 47	40%
2 Seren	48 – 59	50%
3 Seren	60 – 74	65%
4 Seren	75 – 86	80%
5 Seren	87 – 100	90%

* Gweler Cam 2 am eglurhad.

Fodd bynnag, cyn pennu'r canlyniad terfynol hwnnw, mae dau gam arall.

Cam 2

Rhaid i'r Aseswr Ansawdd nawr wirio'r ffurflen ar gyfer cysondeb ansawdd – o dan yr hyn a elwir yn "*Gymhwyswyr Adrannol*".

Diben hyn yw sicrhau nad oes un agwedd ar eiddo yn cynyddu cyfanswm y marc canrannol yn artiffisial gan ei fod o ansawdd uwch na rhannau eraill o'r eiddo.

Mae ymchwil wedi dangos bod ansawdd rhai agweddau ar eiddo yn arbennig o bwysig i westeion. Os yw ansawdd y rhain yn is na disgwyliadau gwesteion, yna byddant wedi eu siomi. Felly mae'n bwysig iawn fod ansawdd y meysydd allweddol hyn yn cyd-fynd â graddiad ansawdd cyffredinol yr eiddo.

Y meysydd allweddol yw:

- Glendid
- Ardaloedd Byw a Bwyta
- Ystafelloedd Gwely
- Ystafelloedd Ymolchi
- Ceginau

Er enghraifft, os yw'r ganran gyffredinol yng Ngham 1 yn disgyn o fewn band 4 Seren (75% i 86%), rhaid i sgôr canran pob un o'r pum maes hyn ddisgyn o fewn y band 4 Seren hefyd (gweler tabl ar dudalen 4) – sylwer ar bwysigrwydd arbennig "glendid", sydd â'i fandiau canrannau ei hun.

Mae'r un broses yn berthnasol i bob lefel.

Os yw sgôr ansawdd unigol unrhyw un o'r pum maes hyn yn disgyn islaw'r graddiad cyffredinol a nodwyd yng Ngham 1, yna bydd y graddiad terfynol a roddir yn cael ei ostwng yn unol â hynny. Er enghraifft, gan ddilyn yr enghraifft flaenorol, os yw Ystafelloedd Ymolchi wedi cael sgôr o 62% yn unig, mae hyn yn golygu mai dim ond 3 Seren y byddai'r eiddo cyfan yn gallu ei gyflawni.

Cam 3

Yn olaf, rhaid gwirio i sicrhau bod unrhyw gyfleusterau ychwanegol sy'n ofynnol ar lefel Seren benodol yn bresennol, yn ogystal â sicrhau bod safonau'r cyfleusterau sy'n berthnasol i bob graddiad Seren yno ar gyfer gwesteion. Dangosodd ein gwaith ymchwil po uchaf y graddiad, y mwyaf o gyfleusterau roedd y cwsmeriaid yn eu disgwyl.

5 Eithriadau

Mae Croeso Cymru'n ymwybodol bod lleiafrif bychan o wahanol fathau o adeiladau na allant mewn gwirionedd ddarparu'r holl gyfleusterau oherwydd eu maint neu oherwydd eu bod wedi'u 'rhestru'. O dan amgylchiadau o'r fath, caniateir rhywfaint o hyblygrwydd, cyn belled ag y darperir ansawdd graddfa'r Seren a geisir, a bod holl ofynion y cymhwyswyr adrannol yn cael eu bodloni. Bydd yn rhaid i'r Gweithgor SRG, sy'n cynrychioli'r sefydliadau sy'n gweithredu'r Safonau Cyffredin, gytuno â phob dosbarthiad. O ran unrhyw ddosbarthiad, mae'n rhaid hysbysebu'r cyfleuster coll yn eglur ym mhob cyfrwng. Bydd unrhyw gŵyn ddifrifol gan ddefnyddiwr yn arwain at adolygiad o'r dosbarthiad. Bydd eich Aseswr Ansawdd yn hapus i'ch cynghori.

Ar ôl cwblhau'r tri cham, bydd gan yr eiddo ei raddiad Seren ei hun!

6 Grid Cyfeirio Cyflym i Raddau Seren*

Seren	Sgôr Gyffredinol Ofynnol*	Sgôr ansawdd ofynnol ar Lendid	Disgrifiad o Ansawdd	Cyfleusterau Allweddol Angenrheidiol
1	34%	40%	Ansawdd cyffredinol dderbyniol, ble mae popeth o safon foddhaol. Rhaid i bopeth fod yn ddiogel, yn lân, yn gweithio'n iawn, a heb fod angen ei drwsio ar unwaith.	Gweler yr adran ar "Safonau Cyfleusterau sy'n Berthnasol i bob Lefel Graddiad Seren" i gael manylion llawn am y gofynion mynediad gofynnol.
2	48%	50%	Ansawdd Gweddol i Dda yn gyffredinol. Gall eitemau fod yn gyfyngedig o ran eu hamrediad ond yn cynnig safon dda o lendid ac yn gweithio'n dda.	Holl ofynion 1 Seren yn ogystal â: • Dim mwy nag un uned nad yw'n hunan-gynhwysol** ar bob llawr. • Gwelyau maint llawn i oedolion.

Seren	Sgôr Gyffredinol Ofynnol*	Sgôr ansawdd ofynnol ar Lendid	Disgrifiad o Ansawdd	Cyfleusterau Allweddol Angenrheidiol
3	60%	65%	Ansawdd Da i Dda Iawn. Ar y graddiad hwn, er y byddai rhywfaint o ôl traul, yn gyffredinol, mae'r holl gyfleusterau ac addurn wedi'u cynnal yn dda.	Holl ofynion ar gyfer 1 a 2 Seren yn ogystal â: • Dillad gwely ar gael am dâl ychwanegol neu hebddo. • Bwrdd a golau ger y gwely ar gyfer pob deiliad (angen golau ar gyfer deiliad pob gwely bync, ond bwrdd neu silff yn unig ar gyfer y gwely bync gwaelod). • Mae angen cawod os yw'r llety ar gyfer mwy na 6 o bobl. • Rhaid i welyau dwbl fod â mynediad ar y ddwy ochr. (Efallai y ceisir dosbarthiad ar lefel 3 Seren lle mae gwelyau dwbl mewn ystafelloedd gwely siâp lletchwith, a bod ansawdd cyffredinol yr ystafell wely yn unol â safon 3 Seren. Ni roddir dosbarthiadau lle mae gwelyau dwbl wedi cael eu gosod mewn ystafelloedd 'sengl' er mwyn cynyddu deiliadaeth.) • Mae unedau nad ydynt yn hunangynhwysol** lle mae un uned yn unig ac mae gan westeion ddefnydd unigol o'r llawr uchaf, yn dderbyniol hyd at lefel 3 Seren.

Seren	Sgôr Gyffredinol Ofynnol*	Sgôr ansawdd ofynnol ar Lendid	Disgrifiad o Ansawdd	Cyfleusterau Allweddol Angenrheidiol
4	75%	80%	Ansawdd Da Iawn i Arbennig heb arwydd amlwg o ôl traul yn y cyfleusterau a ddarperir.	Holl ofynion ar gyfer 1, 2 a 3 Seren yn ogystal â: • Rhaid i bob uned fod yn hunangynhwysol. • Toiled a basn ymolchi ychwanegol os yw'r uned yn cysgu mwy na 6 o bobl. Cyfradd ystafell ymolchi o 1:8 o westeion i'w gynnal. • Dylai tywelion fod ar gael am dâl ychwanegol neu hebddo. • Mynediad at rewgell, cyfradd o 1:5 o westeion ar safle aml uned. • Mynediad at beiriant golchi. e.e. golchfa neu beiriant y perchennog. • Rhaid i bob gofod cysgu a hysbysebir fod mewn ystafelloedd gwely yn unig (mae eithriad ar gyfer ystafelloedd gwely mewn galeri mewn uned i 2 o bobl). • Dillad gwely ar gael a gwelyau wedi eu paratoi i westeion. • Rhaid i bob deiliad gael defnydd o gadair esmwyth yn y brif lolfa.

Seren	Sgôr Gyffredinol Ofynnol*	Sgôr ansawdd ofynnol ar Lendid	Disgrifiad o Ansawdd	Cyfleusterau Allweddol Angenrheidiol
5	87%	90%	Ansawdd Arbennig i Ragorol. Bydd y safon gyffredinol tu mewn a thu allan yn uchel iawn, a bydd safonau arbennig o reolaeth yn ogystal.	Holl ofynion ar gyfer 1, 2, 3 a 4 Seren yn ogystal â: • Baddon a chawod ar gael yn y brif ystafell ymolchi (gellir gwneud eithriad ar gyfer cawodydd lefel mynediad, ble mae eiddo wedi ei addasu ar gyfer defnydd cadair olwyn). Gellir rhoi eithriadau nawr hefyd ar gyfer diffyg baddon pan gyflawnir canran cyffredinol uchel ar lefel 5 Seren yn yr eiddo ac mae pob maes allweddol arall o ansawdd 5 Seren uchel. Lle nad oes baddon, disgwylir y bydd, er enghraifft, cuddygl mawr â chawod trochi o ansawdd uchel yno. • Baddon neu gawod, toiled a basn ymolchi ychwanegol os rhoddir llety i fwy na 6. Angen cynnal cymhareb, e.e. mae 12 o westeion angen dwy ystafell â baddon neu gawod gyda thoiled a basn (gall un fod yn en-suite). Rydym yn argymell bod gweithredwyr yn gweithio tuag at gymhareb o 1:4, ym mha le bynnag posibl. • Darperir tywelion ac mae hyn wedi'i gynnwys yn y pris. • Rhaid i bob lle cysgu a hysbysebir fod mewn ystafelloedd gwely yn unig. Gwelyau maint llawn i bawb ac eithrio gwelyau dros dro i blant.

Seren	Sgôr Gyffredinol Ofynnol*	Sgôr ansawdd ofynnol ar Lendid	Disgrifiad o Ansawdd	Cyfleusterau Allweddol Angenrheidiol
5	87%	90%	Ansawdd Arbennig i Ragorol. Bydd y safon gyffredinol tu mewn a thu allan yn uchel iawn, a bydd safonau arbennig o reolaeth yn ogystal.	• Rhewgell yn yr eiddo. • Darparu peiriant golchi llestri yn yr eiddo. • Darparu peiriant golchi os oes lle ar gyfer un – fel arall, mae peiriant golchi ar gael 24 awr (nid peiriant y perchennog). • Mae Croeso Cymru yn mynnu bod o leiaf 2 o'r 15 eitem canlynol yn yr uned, ac y dylai perchnogion fod yn gweithio tuag at ddarparu 5 o'r rhain. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr, a gellir ystyried eitemau eraill, os cânt eu hystyried yn rhai 'arbennig'. Peiriant sychu dillad, Ffôn, chwaraewr DVD/fideo, system sain/ cerddoriaeth, gorsaf ddocio, consolau gemau, mynediad at y rhyngrwyd/diwifr, cyfrifiaduron/gliniaduron ac argraffwyr o bosibl i westeion eu defnyddio, sawna (yn yr uned), baddon sba, twb poeth (na ren nir), cyfleuster coginio tu allan, setiau teledu ychwanegol mewn rhai ystafelloedd gwely neu ym mhob un ohonynt, llyfrgell helaeth/deunydd cyfeirio lleol, ysbienddrych/telesgop.

*Sylwer: Canllaw cyffredinol yn unig yw'r tabl hwn, ac ni ddylid ei ddefnyddio ar wahân i'r disgrifiad o'r broses graddio a ddisgrifir ar dudalennau 4 a 5. ** Am ddiffiniad o hunan gynhwysol, gweler tudalen 43.

7 Canllaw ar yr ansawdd disgwyliedig i gyflawni Graddiad Seren penodol

Graddiad Ansawdd

Darllenwch y rhan hon yng nghyd-destun y broses 3 Cham a ddefnyddir i bennu cyfanswm graddiad Seren, fel yr eglurir ar dudalennau 3-5.

Mae'r adrannau yn y rhan hon o'r canllaw yn dilyn trefn y ffurflen raddio ac yn dweud wrthych beth fydd yr Aseswr Ansawdd yn ei farcio dan bob eitem ar y ffurflen. Mae'n rhoi awgrym i chi o beth sy'n ddisgwyliedig ar y lefelau ansawdd amrywiol (mae lefel 1 yn gysylltiedig â'r isafswm, h.y. ansawdd derbyniol, lefel 5 – ansawdd Arbennig i Ragorol), fel sy'n berthnasol i'r agwedd honno ar yr eiddo. Dylai eich helpu i ddeall beth sy'n arwain ein Haseswr Ansawdd i roi sgôr benodol.

Sylwer bod y Dangosyddion Ansawdd hyn yn gynrychioladol, ond nad ydynt yn ddiffiniol nac yn gyfarwyddol.

Cyngor

Ar ddiwedd rhai adrannau, fe welwch baragraff wedi ei gynnwys yn rhoi cyngor cyffredinol ar yr agwedd honno ar yr eiddo. Ei ddiben yw cynnig awgrymiadau ar sut y gellid gwella a chyfoethogi ansawdd, i'ch helpu i naill ai gyflawni neu gynnal graddiad, ond ni fydd dilyn y cyngor hwn ynddo'i hun yn gwarantu graddiad ansawdd uwch. Gall ein Haseswyr Ansawdd gynnig cyngor pellach, os oes angen, yn benodol i'ch eiddo chi eich hun, naill ai yn ystod eich archwiliad graddio neu yn yr adroddiad dilynol. Mae'r Aseswyr Ansawdd wedi eu hyfforddi i beidio ag ystyried eu chwaeth eu hunain o ran arddull neu ddylunio.

Ystyrir yr agweddau canlynol fel rhan o'r ymweliad asesu ansawdd

1 Tu allan	• Golwg yr adeiladau. • Tir, gerddi a pharcio. • Amgylchedd a gosodiad.
2 Glendid	• Ardaloedd Byw a Bwyta (yn cynnwys cynteddau, grisiau a choridorau). • Ystafelloedd Gwely. • Ystafelloedd Ymolchi. • Y Gegin.
3 Effeithlonrwydd Rheoli	• Gwybodaeth cyn i'r gwesteion gyrraedd gan gynnwys llawlyfr. • Trefn groeso a chyrraedd. • Gwybodaeth i westeion yn yr uned a chyffyrddiadau personol.
4 Ardaloedd byw a bwyta (sy'n cynnwys cynteddau, grisiau a choridorau)	• Addurn. • Lloriau. • Dodrefn, dodrefn meddal a gosodiadau. • Golau a gwres. • Lle, cysur a rhwyddineb defnyddio.
5 Ystafelloedd Gwely	• Addurn. • Lloriau. • Dodrefn, dodrefn meddal a gosodiadau. • Golau a gwres. • Gwelyau. • Dillad a dillad gwely. • Lle, cysur a rhwyddineb defnyddio.
6 Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau	• Addurn. • Lloriau. • Gosodiadau, dodrefn, offer ymolchfa. • Golau, gwres ac awyru. • Lle, cysur a rhwyddineb defnyddio.

7 Y Gegin	• Addurn. • Lloriau. • Gosodiadau a dodrefn. • Golau, gwres ac awyru. • Cyfarpar trydanol. • Llestri, cyllyll a ffyrc a gwydrau. • Offer cegin, sosbenni a.y.y.b. • Lle, cysur a rhwyddineb defnyddio.
8 Cyfleusterau Ychwanegol*	• Golchdy. • Adloniant. • Derbynfa, siop, bar, bwyty.

* Nid yw'n ofyniad gan gynllun graddio Seren Bwrdd Croeso Cymru fod y cyfleusterau yn yr adran hon yn cael eu darparu, ond, os cânt eu cynnig i westeion, byddant yn ffurfio rhan o'r asesiad ansawdd. Ni fydd cosb am beidio â'u darparu.

Canllaw i Lefelau "Dangosyddion Ansawdd"

Ansawdd Lefel 1 (yn sgorio 1 pwynt)	• Ffactorau sy'n nodi lefel ofynnol yr ansawdd sy'n cyfateb i Un Seren. Gellir disgrifio'r eitemau fel derbyniol. Rhaid i bopeth fod yn ddiogel, yn lân ac yn gweithio. Ni ddylai fod angen trwsio a chynnal fel mater o frys.
Ansawdd Lefel 2 (yn sgorio 2 bwynt)	• Ffactorau sy'n nodi lefel ansawdd sy'n gymesur â Dwy Seren: Gellir disgrifio'r eitemau fel rhai Gweddol. Ar y lefel hon, gall y dewis o eitemau fod yn gyfyngedig ond yn cynnig safon dda o lendid ac yn gweithio'n dda.
Ansawdd Lefel 3 (yn sgorio 3 phwynt)	• Ffactorau sy'n nodi lefel ansawdd sy'n gymesur â Thair Seren. Gellir disgrifio'r eitemau fel Da. Gallai fod rhywfaint o ôl traul, ond mae'n dal i ddangos safon dda o gynnal a chadw o ran cyfleusterau ac addurn.
Ansawdd Lefel 4 (yn sgorio 4 pwynt)	• Ffactorau sy'n nodi lefel ansawdd sy'n gymesur â Phedair Seren. Gellir disgrifio'r eitemau fel Da Iawn heb unrhyw ôl traul amlwg i'w weld yn y cyfleusterau a ddarperir.
Ansawdd Lefel 5 (yn sgorio 5 pwynt)	• Ffactorau sy'n nodi lefel ansawdd sy'n haeddu Pum Seren. Gellir disgrifio'r eitemau fel rhai Arbennig. Bydd safonau cyffredinol yr adeilad, y tu mewn a thu allan, yn uchel iawn, a bydd safonau rheoli rhagorol yn ogystal.

7.1 Y Tu Allan

Golwg adeiladau

Bydd addurn, gwaith cynnal a chadw a thrwsio yr adeilad yn cael ei asesu dan yr adran hon. Mae hyn yn cynnwys gwaith maen, gwaith coed, y paentio, gwterydd a'u pibelli, y plymwaith allanol, simneiau a thoeau. Yma, ystyrir arwyddion allanol a atodir i'r adeilad (eglurder a chynnal a chadw) a'r golau. Bydd unrhyw adeiladau allanol a mannau storio, e.e. mannau sbwriel yn cael eu hasesu yma hefyd. Bydd blychau ffenestri, tybiau a basgedi crog a atodir i'r adeilad yn cael eu hasesu o dan y pennawd hwn hefyd.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Mannau allanol wedi eu cadw mewn cyflwr cyffredinol dda, derbyniol a glân. • Gall rhai arwyddion o heneiddio fod yn bresennol a rhai mân namau i'r gwaith maen neu frics. • Mae'r man uniongyrchol ei hun yn daclus gan gynnwys adeiladau/mannau storio.

Lefel 2	• Dylai arwyddion o heneiddio a diffygion fod yn gyfyngedig i nifer fechan o fannau.
Lefel 3	• Wedi eu cynnal yn dda – gall olion traul tywydd fod yn bresennol. • Dim diffygion strwythurol amlwg. Lle cânt eu harddangos, rhaid cadw'r arwyddion mewn cyflwr da.
Lefel 4	• Gwaith maen a phaent wedi ei gynnal i ansawdd uchel, rhywfaint o hindreuliad naturiol. • Rhai nodweddion allanol ychwanegol i wella'r golwg; mae hyn yn cynnwys blychau ffenestr, yn enwedig mewn eiddo heb ardd.
Lefel 5	• Safonau rhagorol o gynnal a chadw allanol, gan gynnwys: adeiladau allanol ac arwyddion, e.e. gwaith paent newydd wedi ei gynnal yn dda, dim staenio ar y gwaith maen. Nodweddion ychwanegol fel tybiau blodau a blychau ffenestr lle bo hyn yn briodol. • Gall nodweddion pensaernïol deniadol fod yn bresennol. • Wedi goleuo'n dda a'r arwyddion yn glir.

7.1.1 Tir, Gerddi a Pharcio

Os nad oes tir, gerddi neu barcio gan yr eiddo, ni fydd yr adran hon yn cael ei hasesu. Bydd asesiad o'r maes hwn yn cynnwys gerddi, gwrychoedd, llwybrau, dreif, parcio a phob man arall o fewn ffiniau'r eiddo ac sy'n weladwy o'r eiddo neu lle gall y gwesteion fynd iddo ac sydd dan reolaeth y perchennog.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Argraff gyntaf dderbyniol, e.e. biniau sbwriel heb fod yn amlwg. • Y tir o gwmpas wedi'i gynnal a chadw fel nad ydyw'n tynnu oddi wrth yr olwg gyffredinol, e.e. lawntiau a borderi heb fod wedi tyfu'n wyllt. • Parcio rhesymol hawdd ei gyrraedd, wedi ei gynnal yn dda. Os nad oes parcio ar gael, mae gwybodaeth i ddarpar westeion am leoedd parcio. • Ystyriaeth wedi ei rhoi i reoli anifeiliaid gwyllt a dof o gwmpas yr eiddo.
Lefel 2	• Tystiolaeth o fwy o ymdrech i wneud gerddi yn fwy deniadol ac yn rhydd o sbwriel. • Llwybrau heb berygl baglu. • Rhywfaint o ymdrech i ddiffinio man parcio.
Lefel 3	• Golwg cyffredinol drwsiadus a thaclus i'r tir, gerddi, rhodfeydd a llwybrau troed a.y.y.b. • Mae modd parcio'n rhwydd, ac mae arwynebedd da a diffiniad clir. • Golau effeithiol lle bo'i angen e.e. rhodfa neu lwybr hir at yr eiddo. Efallai y bydd angen golau yn y man parcio hefyd. • Parcio ar arwynebedd gwell sy'n rhydd o dyllau.
Lefel 4	• Safonau uchel o gynnal gerddi. Gwelyau, llwybrau a gwrychoedd yn gyffredinol daclus a'r holl goed a'r llwyni wedi eu cadw'n dda. • Mannau'r biniau heb fod yn weladwy, gyda sgriniau yn eu cuddio fyddai orau. • Tystiolaeth o rywfaint o sylw i fanylion e.e. rhodfeydd gydag arwynebedd da a heb dyllau, borderi lliwgar a llwybrau llydan, gwastad. • Man parcio yn rhydd o chwyn, arwynebedd wedi ei gynnal yn dda ac yn agos at yr eiddo fyddai orau.

Lefel 5	• Wedi'u cynnal i safon ardderchog e.e. borderi neu lwyni wedi eu trin yn dda, llwybrau taclus a'r ymylon mewn cyflwr da ac wedi'u torri'n dda, gwrychoedd wedi'u tocio ac ymgais gyffredinol i gynnal yr olwg trwy gydol y flwyddyn. • Sylw i fanylion, gan gynnwys tirweddu, rhodfeydd, darparu dodrefn gardd neu nodweddion pensaernïol, e.e. golygdy, pergola, hafod a.y.y.b. • Digon o le parcio yn agos at yr uned i gynnwys nifer tebygol y gwesteion. • Goleuadau da, wedi eu lleoli'n dda. • Ystyriaeth wedi ei roi i ddiogelwch ceir gwesteion.

Cyngor

Mae'r argraff gyntaf yn bwysig, felly dylech gadw'r tir, gerddi a'r mannau parcio yn daclus ac mor rhydd o chwyn â phosibl. Ystyriwch y farchnad y mae eich eiddo yn ei gwasanaethu i deuluoedd; efallai na fydd gwelyau blodau ffurfiol a phyllau yn addas, ac y bydd yn rhaid i'r glaswellt fod yn fwy gwydn. Ar y llaw arall, bydd cyplau yn gwerthfawrogi gerddi llawn a lliwgar. Lle bo tai yn agos at ei gilydd neu yn agos at eiddo'r perchennog, efallai y bydd yn well gan y gwesteion gael rhyw fath o sgrinio er mwyn cael preifatrwydd. Lle gadewir anifeiliaid gwyllt a dof yn rhydd i grwydro, gall hyn beri mwynhad i'r gwesteion, ond efallai na fyddant mor hapus gyda'r llanast maent yn gadael ar eu holau.

Cynaliadwyedd	Ar gyfer tir, gerddi a thir blaen, gallai sefydliadau ystyried defnyddio deunyddiau sy'n cyd-fynd â'r amgylchedd lleol a nodweddion ffisegol y ddaearyddiaeth a'r ddaeareg leol, ac oedran yr adeiladau. Dylid ystyried defnyddio amrywiaethau lleol o flodau, planhigion a.y.y.b.

7.1.2 Yr Amgylchedd a'r Argraff Gyntaf

Adlewyrchiad o agweddau cadarnhaol neu negyddol lleoliad yr eiddo a'r cyffiniau a allai effeithio ar gysur y gwesteion. Osgoir dewis personol. Rhoddir ystyriaeth i ymdrechion a wnaed i oresgyn amgylchedd gwael trwy sgrinio neu fancio i leihau unrhyw olygfa ddiolwg a sŵn, e.e. ffenestri dwbl. Caiff y llwybr i gyrraedd yr eiddo o'r ffordd ei ystyried hefyd.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Argraff gyntaf dderbyniol. • Dim llawer o lefelau sŵn gormodol o draffig neu ddiwydiant.
Lefel 2	• Gall unedau fod yn agos at ei gilydd. • Rhywfaint o ymdrech i insiwleiddio rhag sŵn e.e. ffenestri dwbl.
Lefel 3	• Argraff gyntaf foddhaol. • Dim lefelau sŵn gormodol.
Lefel 4	• Efallai mewn lle ardderchog, ond yn agos at unedau eraill. • Mewn man diarffordd, ond gall fod yn anodd ei gyrraedd.
Lefel 5	• Y lle yn groesawgar. • Amgylchedd deniadol. • Yn aml mewn man diarffordd, tawel mewn tir helaeth, efallai ar lan afon neu ar godiad tir mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol. • Mewn dinas yn agos at y canol gyda mynediad ardderchog at gyfleusterau.

Mynediad	Dylid sicrhau bod rhodfeydd yn cael eu cadw'n rhydd o rwystrau, malurion, mwswgl, iâ a dail wedi cwympo, a chael arwynebau cadarn wedi'u cynnal yn dda. Sicrhau bod unrhyw nodweddion parhaol ar y llwybr wedi'u gosod yn ddiogel – e.e. trefniadau potiau blodau, cerfluniau.

7.2 Glendid

Ardaloedd Byw a Bwyta

Asesiad sy'n cynnwys asesiad o lendid ffenestri, lloriau a sgyrtin, grisiau, rheilen dado/ rheilen luniau a lluniau, clustogau o dan seddi, tu mewn a'r tu allan i ddodrefn, pwyntiau pŵer a switsys golau, gosodiadau golau, ymylon nenfydau a nwyddau trydanol.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Rhaid i bob arwyneb a chyfarpar fod yn lân ac yn gyffredinol yn rhydd o lwch, ond gall fod rhai arwyddion bychan o esgeulustod. • Rhaid bod pob carped wedi cael ei hwfro a lloriau wedi cael eu glanhau. • Rhaid bod pob man yn arogli'n ffres ac yn lân erbyn i'r gwesteion gyrraedd.
Lefel 2	• Safon gweddol i dda, er bod rhai mannau wedi eu hesgeuluso, e.e. gwe pry cop.
Lefel 3	• Tystiolaeth o sylw i fanylion, yn enwedig ar lefel uchel ac isel. • Arwynebeddau glân a ffres. • Dodrefn meddal a charpedi yn cael eu glanhau'n ddwfn yn rheolaidd neu yn ôl yr angen.
Lefel 4	• Mwy o sylw i fanylion, gyda safonau cyffredinol uchel yn amlwg.
Lefel 5	• Lefel ragorol o lendid. • Arwynebeddau'n sgleinio gyda thystiolaeth o lanhau trwyadl a lefel uchel o sylw i fanylion. • Dodrefn meddal a charpedi fel newydd.

Cyngor

Disgwylir y bydd unrhyw lestri metel wedi eu gloywi ac yn rhydd o staeniau. Lle derbynnir anifeiliaid anwes, dylid talu sylw arbennig i ddileu arogleuon anifeiliaid ac arogleuon hen fwg lle caniateir ysmygu, ond gochelwch rhag defnyddio gormod o arogl ffug i lanhau'r aer, gan y gall hyn fod yr un mor annifyr.

Dylid talu sylw arbennig i gorneli ystafelloedd, dan glustogau soffa/cadeiriau, gosodiadau golau, falansau llenni ac offer trydanol, lle mae statig yn hel llwch. Gwiriwch leinin llenni rhag ofn bod staeniau.

7.2.1 Ystafelloedd Gwely

Tu mewn a thu allan i ddodrefn (topiau a thu mewn i gypyrddau dillad), gosodiadau golau ac ymylon nenfydau, lloriau a sgyrtin, dan welyau, ffenestri, pennau gwelyau, fframiau a matresi.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Rhaid bod pob arwyneb a'r holl offer yn lân ac yn gyffredinol rhydd o lwch. • Rhaid bod pob carped wedi cael ei hwfro a lloriau wedi cael eu glanhau. • Rhaid bod pob man yn arogli'n ffres ac yn lân erbyn i'r gwesteion gyrraedd. • Rhai arwyddion o esgeulustod.

Lefel 2	• Safon gweddol i dda, er bod rhai mannau wedi eu hesgeuluso, e.e. gwe pry cop.
Lefel 3	• Tystiolaeth o sylw i fanylion, yn enwedig ar lefel uchel ac isel. • Arwynebeddau glân a ffres. • Dodrefn meddal a charpedi yn cael eu glanhau'n ddwfn yn rheolaidd neu yn ôl yr angen.
Lefel 4	• Mwy o sylw i fanylion, gyda safonau cyffredinol uchel yn amlwg.
Lefel 5	• Lefel ragorol o lendid. • Arwynebeddau'n sgleinio gyda thystiolaeth o lanhau trwyadl a lefel uchel o sylw i fanylion. • Dodrefn meddal a charpedi fel newydd.

Cyngor

Dylech dalu sylw arbennig i dop a thu mewn i gypyrddau dillad, tu mewn i ddroriau, pennau gwelyau, o dan welyau a matresi, o dan ddodrefn, falansau llenni a.y.y.b.

Trwy symud cambrenni i un pen o'r cwpwrdd dillad, mae'n arwydd i'r gwesteion fod sylw wedi ei roi i'r maes hwn.

7.2.2 Ystafelloedd Ymolchi

Mae hyn yn cynnwys asesiad o lendid gorffeniadau waliau, lloriau, cyfarpar, llenni cawod, gosodiadau golau, ffannau echdynnu, tyllau plygiau, tapiau a brwsys toiled.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Rhaid bod pob arwyneb a chyfarpar yn lân ac yn rhydd o lwch. • Rhaid bod pob carped wedi cael ei hwfro a lloriau wedi cael eu glanhau. • Rhaid bod pob man yn arogli'n ffres ac yn lân erbyn i'r gwesteion gyrraedd. • Rhai arwyddion o esgeulustod.
Lefel 2	• Safon gweddol i dda, er bod rhai mannau wedi eu hesgeuluso, e.e. gwe pry cop.
Lefel 3	• Tystiolaeth o sylw i fanylion, yn enwedig lefel uchel ac isel. • Arwynebeddau glân a ffres. • Dodrefn meddal a charpedi yn cael eu glanhau'n ddwfn yn rheolaidd neu yn ôl yr angen.
Lefel 4	• Mwy o sylw i fanylion, gyda safonau cyffredinol uchel yn amlwg.
Lefel 5	• Lefel ragorol o lendid. • Arwynebeddau'n sgleinio gyda thystiolaeth o lanhau trwyadl a lefel uchel o sylw i fanylion. • Dodrefn meddal a charpedi fel newydd.

Cyngor

Pan fydd gwesteion yn eistedd yn y baddon, ystyriwch y gallant weld popeth ar lefel is, felly peidiwch ag anghofio'r mannau hynny na fyddwch fel arfer yn eu gweld wrth sefyll, e.e. y tu ôl i bedestal y basn ymolchi, y tu ôl i'r toiled a'i phibell.

Mae mannau sy'n uwch nag uchder pen yn aml yn cael eu hanghofio wrth lanhau, felly ychwanegwch bennau rheiliau neu gabanau cawod, cysgodlenni Fenis a ffannau echdynnu at y drefn lanhau. Efallai y bydd angen tynnu cen o bennau cawod a thapiau yn fwy rheolaidd mewn ardaloedd dŵr caled pan fyddant yn cael eu defnyddio'n gyson.

Gwiriwch dyllau plygiau adeg pob newid, a gwiriwch bibellau draenio baddon/cawod yn rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn rhedeg yn rhydd. Os bydd gennych ail set o lenni cawod, gallwch eu golchi yn rheolaidd i atal llwydni, gan fod modd golchi'r rhan fwyaf mewn peiriant ar dymheredd isel.

Ewch â hen nwyddau baddon neu sebon i ffwrdd. Mae angen glanhau brwsys toiled a'r hyn sy'n eu dal yn rheolaidd, a'u hamnewid pan fydd angen.

7.2.3 Y Gegin

Bydd asesiad o'r ardal hon yn cynnwys glanweithdra y tu mewn a'r tu allan i ddodrefn, darnau gosod a gosodiadau, lloriau ac arwynebau, ymylon nenfwd, cyfarpar trydanol a nwy, goleuadau, pwyntiau trydan, ffannau echdynnu a sinciau.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Rhaid bod pob arwyneb a chyfarpar yn lân ac yn rhydd o lwch. • Rhaid bod pob carped wedi cael ei hwfro a lloriau wedi cael eu glanhau. • Rhaid bod pob man yn arogli'n ffres ac yn lân erbyn i'r gwesteion gyrraedd. • Rhai arwyddion o esgeulustod.
Lefel 2	• Safon gweddol i dda, er bod rhai mannau wedi eu hesgeuluso, e.e. gwe pry cop.
Lefel 3	• Tystiolaeth o sylw i fanylion, yn enwedig ar lefel uchel ac isel. • Arwynebeddau glân a ffres. • Dodrefn meddal a charpedi yn cael eu glanhau'n ddwfn yn rheolaidd neu yn ôl yr angen.
Lefel 4	• Mwy o sylw i fanylion, gyda safonau cyffredinol uchel yn amlwg.
Lefel 5	• Lefel ragorol o lendid. • Arwynebeddau'n sgleinio gyda thystiolaeth o lanhau trwyadl a lefel uchel o sylw i fanylion. • Dodrefn meddal a lloriau, ac offer cegin, fel newydd.

Cyngor

Dyma'r mannau sydd angen sylw rheolaidd:

Poptai	• Lwfer poptai, y tu mewn i boptai, padelli gradell, y mannau o gwmpas y bylau rheoli, o dan hobiau, yn enwedig arwynebeddau uwch poptai microdon a'u cefnau.
Oergelloedd a Rhewgelloedd	• Seliau, dadrewi blychau rhew, hambyrddau drws. Gwell gadael y drysau ar agor pan fyddant wedi eu diffodd a heb fod yn cael eu defnyddio i osgoi llwydni ac arogleuon.
Peiriannau golchi llestri	• Glanhau'r hidlyddion a'r seliau.
Peiriannau golchi a sychu dillad	• Blewiach ac olion powdr.
Arall	• Cypyrddau storio bwyd gan gynnwys cael gwared ar fwyd dros ben, tryledwyr goleuadau stribed, (pryfed marw a baw) ffannau echdynnu a'r tu mewn i ddroriau.

Cynaliadwyedd	Ystyriwch ddefnyddio cynhyrchion glanhau effaith isel heb glorin, fel clytiau microffibr sy'n lleihau faint o hylif glanhau sydd ei angen.

7.3 Effeithlonrwydd Rheoli

Cyn Cyrraedd – Gwasanaethau i Westeion

Yma, asesir y drefn ar gyfer delio â gwesteion wrth fwcio, cyn cyrraedd, adeg cyrraedd, a'r wybodaeth a ddarperir i westeion i wneud y mwyaf o'u harhosiad.

Gwybodaeth i Westeion Cyn Cyrraedd gan Gynnwys Llawlyfr

Mae hyn yn ymdrin â'r wybodaeth a anfonir cyn bwcio'r llety, gyda'r nod o roi gwybod i'r gwestai am yr eiddo a'r ardal. Gall gynnwys gwefan y trefnydd a/neu asiantwyr yr eiddo hefyd.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Gall y llawlyfr fod yn ddalen wedi'i theipio gyda gwybodaeth sylfaenol arni. • Map/cyfarwyddiadau clir a hawdd eu dilyn ar ôl bwcio'r llety. • Anfon llythyr cadarnhau trwy'r post/ffacs.
Lefel 2	• Gall y llawlyfr gynnwys mwy o fanylion, ond gall fod yn un ochr o hyd.
Lefel 3	• Cynnwys un darlun neu fraslun (gall fod yn ddu a gwyn) gyda gwybodaeth fanylach. • Gellir cynnwys llythyr cyflwyno.
Lefel 4	• Byddai'r llawlyfr yn cynnwys ffotograffau a byddant yn rhai lliw fel arfer ond efallai na fydd wedi'i gynhyrchu'n broffesiynol. • Llawlyfr llawn gwybodaeth, wedi ei osod yn dda ar bapur o safon.
Lefel 5	• Wedi ei gynhyrchu i safon broffesiynol gyda gwybodaeth helaeth a chlir. • Cyfarwyddiadau manwl, hawdd eu dilyn a anfonir allan ar ôl bwcio'r llety. • Llythyr cyflwyno personol gyda gwybodaeth i ymwelwyr.

Cyngor

Disgwylir gwefan dda erbyn hyn, a dylid ystyried cyfleuster archebu lle ar-lein i fodloni disgwyliad gwesteion.

Mae lluniau lliw yn dweud llawer i westeion, yn enwedig am y lleoliad a/neu'r tu mewn. Cofiwch y bydd gwesteion yn aml yn cael llawer o bamffledi cyn penderfynu, felly rhaid i'ch pamffled chi fod yn drawiadol.

Dylech roi syniad cyffredinol o ble mae'r eiddo, ond ar ôl bwcio'r llety y dylech roi cyfarwyddiadau manwl, am resymau diogelwch.

Cynaliadwyedd	Gallai gwybodaeth bwcio a gwybodaeth hyrwyddol gynnwys manylion am drafnidiaeth gyhoeddus, lle bo'n briodol, a manylion ynglŷn â ble i brynu bwyd a diod lleol, er mwyn i westeion allu cynllunio'u trefniadau prynu cyn cyrraedd.

Mynediad	Gofynnwch i'ch gwesteion a oes ganddyn nhw unrhyw anghenion mynediad. Mae angen croesawu cŵn cymorth (rhwymedigaeth gyfreithiol). Mae llawer o bobl anabl yn dibynnu ar gŵn cymorth i ddarparu annibyniaeth. Ystyriwch y ci yn rhan o'r unigolyn. Sicrhewch fod gwesteion sy'n anabl e.e. nam ar eu golwg, yn cael cynnig taith cyfarwyddo o gwmpas y llety.

7.3.1 Trefn Croesawu a Chyrraedd

Dyma'r drefn a ddefnyddir i groesawu gwesteion gan gynnwys trefniadau mynediad e.e. casglu allwedd.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Efallai na fydd yn bosibl croesawu gwesteion yn bersonol. • Gellir gadael allwedd i bobl sy'n cyrraedd.
Lefel 2	• Gellir cael yr allwedd gan y sawl sy'n ei chadw, ond bydd rhywfaint o wybodaeth neu ddarpariaeth croeso.
Lefel 3	• Darperir diod croeso, e.e. te a choffi, efallai ar hambwrdd. • Cerdyn croeso yn gwahodd gwesteion i gysylltu â'r perchenogion neu'r gofalwr unrhyw adeg yn ystod eu harhosiad. • Lle darperir dillad gwely, dylid gwneud y gwelyau.
Lefel 4	• Lle na roddir croeso personol, rhoddir hambwrdd te gyda llythyr o groeso neu alwad ffôn neu ymweliad, ychydig amser ar ôl cyrraedd, i wneud yn siŵr fod popeth yn iawn. • Gall y 'pecyn croeso' gynnwys te, coffi, llaeth, blodau ffres, a chacen a.y.y.b.
Lefel 5	• Cyfarch y gwesteion pan fyddant yn cyrraedd a/neu wirio a yw popeth yn iawn ar ôl 24 awr. • Darparu pecyn croeso gydag, e.e. ffrwythau, blodau, anrheg a.y.y.b.

Cyngor

Mae'n bwysig sicrhau, os na ellir rhoi croeso personol, bod y gwesteion yn llawn ymwybodol o gyswllt lleol petai'r angen yn codi. Bydd "pecyn croeso" yn gwneud i westeion deimlo'n gartrefol. Ar lefel syml gall gynnwys te, coffi a llaeth, ond gall gynnwys rhai o'r canlynol: gwin, blodau ffres, ffrwythau ffres, bara, wyau, cacennau cartref neu jamiau, pryd bach i gychwyn neu anrhegion tymhorol, e.e. wyau Pasg.

Cynaliadwyedd	Nid oes angen i becynnau croeso a lletygarwch gynnwys eitemau wedi'u pecynnu'n unigol, fel siwgr, bisgedi a.y.y.b. Gellir defnyddio cynhwysyddion aerdyn ar gyfer deunyddiau sych, a phan fo'n bosibl, gellid defnyddio deunyddiau a gynhyrchir yn lleol.

7.3.2 Gwybodaeth i Westeion ac Ymwelwyr yn yr Uned

Gwybodaeth i westeion yn yr uned, a chyffyrddiadau personol – mae hyn yn cynnwys darparu a chyflwyno gwybodaeth i ymwelwyr, e.e. taflenni atyniadau a gwybodaeth am y tŷ, e.e. sut i ddefnyddio'r cyfarpar. Cyffyrddiadau personol yw'r agweddau hynny sy'n gwneud yr eiddo'n fwy cartrefol a chroesawgar, fel planhigion, llyfrau, fideos, addurniadau a.y.y.b.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Detholiad o wybodaeth i ymwelwyr am yr ardal leol a'r cyffiniau. Dim gwir gyflwyniad. • Ystod gyfyngedig o gyffyrddiadau personol. • Darperir manylion am sut i weithredu'r holl gyfarpar yn yr uned a chasglu sbwriel.
Lefel 2	• Detholiad rhesymol o wybodaeth i ymwelwyr a heb fod wedi dyddio gormod. • Ystod fechan o eitemau, e.e. addurniadau, llyfrau.

Lefel 3	• Ystod estynedig o wybodaeth i ymwelwyr gan gynnwys lleoedd i fwyta, a.y.y.b. ac fel rheol yn gyfoes. • Safon dda o gyflwyno i wybodaeth am y tŷ. Ystod ehangach gan gynnwys llyfrau, gemau a chylchgronau. Gwybodaeth fanwl i westeion e.e. siopau lleol, tafarndai, cyfleusterau hamdden, eglwysi, a.y.y.b.
Lefel 4	• Detholiad eang o wybodaeth i ymwelwyr am yr ardal leol a thu hwnt. Disgwylir bod y taflenni wedi'u trefnu i ryw raddau. • Gwybodaeth ychwanegol wedi ei llunio gan y perchenogion yn hytrach na thaflenni masnachol. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am weithgareddau hamdden a chwaraeon yn lleol, ymhle mae'r banciau, siopau a.y.y.b., yn enwedig y rhai sy'n gwerthu cynnyrch lleol. Dylid dangos hyn mewn rhwymydd rhydd neu restl. • Ystod dda iawn o gyffyrddiadau personol gan gynnwys llyfrau, gemau, offer trwsio, barbeciw, planhigion a chylchgronau.
Lefel 5	• Gall gwybodaeth gynhwysfawr gynnwys llyfrau o ddiddordeb lleol, mapiau'r arolwg ordnans, gwybodaeth am gerdded a.y.y.b. • Ystod ragorol o eitemau a all gynnwys e.e. nwyddau ystafell ymolchi, clorian ystafell ymolchi, llyfrau coginio, CDau, fideos. • Manylion cynhwysfawr wedi eu cyflwyno i'r safon uchaf.

Cyngor

Meddyliwch am beth yr hoffech chi ei wybod petaech yn ddieithr i'r ardal a rhestrwch eich argymhellion personol am bethau fel bwytai, tafarndai, siopau, lleoedd i gerdded a.y.y.b. Gallech fynegeio taflenni gwybodaeth i ymwelwyr, e.e. gweithgareddau i blant, pethau i'w gwneud os bydd yn bwrw glaw a.y.y.b. Mae angen i chi roi gwybod i'r gwestai ei fod yn werth iddynt ddychwelyd gan fod cymaint i'w wneud a'i weld. Dechreuwch lyfr o argymhellion gan y gwesteion er mwyn iddynt gofnodi ble yr aethant ac ymhle y cawsant fwyd, gan fod hyn yn help i gadw gwybodaeth yn gyfoes.

Mae'n ddoethach llungopïo dim ond y rhannau perthnasol o lawlyfrau cyfarpar nwy/trydan a.y.y.b. gan y gallant fel arall gael eu colli neu eu difrodi. Gellir rhoi'r rhain mewn waledi plastig mewn llyfr dalenni rhydd er hwylustod.

Bydd gwesteion yn gwerthfawrogi awyrgylch cartrefol a dymunol, a gellir gwneud hyn trwy ddarparu'r cyffyrddiadau cartrefol hynny y gall gwesteion fod yn gyfarwydd â hwy yn eu cartrefi eu hunain.

Lle darperir chwaraewr DVD neu CD, yna gellid cynnwys detholiad o CDau a DVDau. Os darperir recordydd fideo, yna gellid darparu fideos adloniant. Mewn rhai ardaloedd, gall fod yn bosibl prynu fideos am yr ardal leol a'r atyniadau, a gallai'r gwesteion fwynhau hynny.

Cynaliadwyedd	Gallai ffolderi gwybodaeth i ymwelwyr gynnwys: manylion am leoedd cyfagos sy'n darparu bwyd, diod a rhoddion lleol o ansawdd da, atyniadau lleol o ansawdd da i ymwelwyr, gwybodaeth am dreftadaeth, diwylliant ac iaith leol, gan gynnwys manylion am ddigwyddiadau arbennig, opsiynau i deithio heb gar, fel llwybrau cerdded a beicio, amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus a rhifau cyswllt a/neu awgrymiadau ar gyfer cyfres o ddiwrnodau allan heb gar, polisi amgylcheddol y sefydliad os oes un, neu fanylion am unrhyw gynllun gwyrdd y mae'n gysylltiedig ag ef. Os yw'r busnes yn rhan o gynllun ad-dalu ymwelwyr, dylid cynnwys gwybodaeth am y cynllun hwn hefyd.

7.4 Ardaloedd Byw a Bwyta

Mae hyn yn cynnwys coridorau, grisiau a landin, yn ogystal â lolfeydd, ystafelloedd haul ac ystafelloedd bwyta ar wahân.

Os oes bariau a bwytai ar y safle, nodir y rhain o dan Cyfleusterau Ychwanegol.

7.4.1 Addurn

Yn ogystal â waliau a nenfydau, asesir y ddarpariaeth ac ansawdd lluniau a phrintiau, a phob addurn wal yma hefyd. Mae asesiad o addurn y waliau, nenfydau a'r gwaith coed yn edrych ar yr ansawdd, y gosodiad a'r cyflwr. Ni ystyrir chwaeth bersonol yr aseswr o ran arddull nac addurn.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Addurn ymarferol a chyd-drefniant cyfyngedig. • Cerfwedd ac addurn cyfyngedig.
Lefel 2	• Addurn wedi ei osod yn fedrus ac o ansawdd eithaf da. • Ambell i nam amlwg.
Lefel 3	• Y tu mewn yn dda, gyda thystiolaeth o gyd-drefniant yn y dylunio. • Gorchuddiadau wal a gwaith paent o ansawdd da. • Defnydd o luniau a.y.y.b., lle bo'n briodol, yn enwedig ar waliau plaen.
Lefel 4	• Safon gorffeniad proffesiynol mewn cyflwr da iawn gyda'r lefel briodol o addurn fel sy'n gweddu i'r arddull.
Lefel 5	• Dylunio mewnol ac argraff gyffredinol ragorol. • Gorchuddion waliau o ansawdd uchel mewn cyflwr ardderchog; gorffeniad proffesiynol i bob agwedd ar yr addurno. • Defnydd deniadol o luniau, printiau ac addurn arall lle bo'n briodol. • Nodweddion pensaernïol diddorol, eitemau diddorol, gwaith celf a gwrthrychau celf.

Cynaliadwyedd	Addurn – gellid defnyddio gwaith artistiaid lleol, printiadau a/neu ffotograffau o olygfeydd lleol, a delweddau sy'n gysylltiedig â threftadaeth a hanes lleol – mae'r cyfan yn ychwanegu at ymdeimlad yr ymwelydd o'r lle.

Mynediad	Ystyriwch gael fframiau drysau lliw gwahanol i'r waliau ac osgoi gorffeniad sgleiniog i gynorthwyo gwesteion sydd â nam ar eu golwg.

7.4.2 Lloriau

Mae hyn yn cynnwys pob math o loriau fel carpedi, laminad, serameg, pren naturiol neu feinil. Mae'r asesiad yn ymwneud ag ansawdd, cyflwr a gosodiad.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Lloriau digonol o ran cysur, gall peth ôl traul fod yn amlwg. • Efallai heb eu ffitio'n broffesiynol.
Lefel 2	• Ansawdd gweddol i dda, ond gall carpedi fod â chynnwys ffibr artiffisial eithaf uchel. • Ychydig o ddifrod i deils.
Lefel 3	• Lloriau o ansawdd da, yn gyfforddus dan draed. • Teils gyda growt glân. • Lloriau pren mewn cyflwr da.
Lefel 4	• Lloriau o ansawdd uchel, ddim o angenrheidrwydd yn newydd, gallant ddangos ôl traul neu ansawdd gweddol, ond mewn cyflwr gwych. Wedi eu ffitio'n broffesiynol fel arfer. • Disgwylir rygiau o ansawdd uchel ar loriau pren neu laminad.
Lefel 5	• Lloriau o ansawdd uchel mewn cyflwr ardderchog. Dim gwir ôl traul, ac wedi eu ffitio yn broffesiynol.

7.4.3 Dodrefn, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

Mae'n cynnwys ansawdd a chyflwr dodrefn ystafelloedd bwyta a lolfeydd, gan gynnwys seddi, clustogau, polion llenni, gosodiadau golau, cyfarpar gwresogi, teledu a.y.y.b.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Darpariaeth brin ond ddigonol o ddodrefn, dodrefn meddal a gosodiadau, o ran ansawdd a nifer. • Cyd-drefniant cyfyngedig. • Llenni heb leinin efallai, ond dylent gyfarfod yn y canol. Dylai bleindiau redeg yn llyfn.
Lefel 2	• Gwell darpariaeth o ddodrefn a all fod wedi dyddio neu dreulio, ond yn gadarn. • Dim llawer o gysur i westeion. • Llenni o well ansawdd, yn lân ac yn rhedeg yn llyfn.
Lefel 3	• Dodrefn o ansawdd da. • Llenni yn fwy sylweddol, gyda leinin. Ni ddylent fod â staen dŵr arnynt. • Defnydd da o gyd-drefniant. • Lle darperir lle bwyta ar wahân, darpariaeth i uchafswm nifer y gwesteion fwyta yn gysurus.
Lefel 4	• Dodrefn o ansawdd uchel, heb fod yn newydd yn angenrheidiol, ond yn gysurus iawn. • Llenni yn llawn, a gallant fod ag ychwanegiadau fel defnydd clymu'n ôl.
Lefel 5	• Dodrefn modern, atgynhyrchiadau neu hen ddodrefn o ansawdd uchel. Lle darperir bwrdd gyda darn gollwng, dylid gallu ei ddefnyddio yn hawdd. Cyd-drefniant rhagorol o ran dodrefn a defnydd. • Gorchuddion ffenestr o ansawdd rhagorol yn ffitio ac yn hongian yn dda, ac yn gysurus iawn. • Deunyddiau meddal o ansawdd uchel.

Mynediad	Mae angen osgoi carpedi peil dwfn gan y gall achosi pobl i faglu neu ei gwneud hi'n anodd i gadair olwyn symud.

7.4.4 Gofod, Cysur a Rhwyddineb Defnyddio

Mae'n ystyried y defnydd o ofod a sut mae'r ystafell wedi'i chynllunio er mwyn cynnig y cyfleustra gorau posibl a rhwyddineb defnyddio i'r gwesteion. A all yr holl westeion eistedd i wylio'r teledu'n gyfforddus? A oes digon o le i'r holl westeion fwyta gyda'i gilydd? A oes angen symud dodrefn er mwyn defnyddio cyfleusterau eraill? Caiff y defnydd o welyau soffa ei ystyried gan ei fod yn effeithio ar gysur a rhwyddineb defnyddio.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Cysur a dodrefn derbyniol. • Lle i symud yn weddol rydd. • Gall dodrefn rhy fawr neu ormod ohono olygu ei fod yn ymwthiol yn yr ystafell a dylai ei defnydd arferol fod yn rhydd o sŵn, arogleuon allanol a.y.y.b. • Braidd dim sŵn o blymio, coridorau a.y.y.b. • Dim llawer o ystyriaeth i gynllun.
Lefel 2	• Lefelau eithaf da o gysur ac ystod gyfyngedig o seddi. • Amgylchedd sy'n rhydd o sŵn, arogleuon allanol a.y.y.b. • Hawdd defnyddio'r cyfleusterau.
Lefel 3	• Dewis o soffas a/neu gadeiriau breichiau. • Digon o le i symud. • Cynllun cyfleus i'r dodrefn at ddefnydd ymarferol. • Awyrgylch glân ac eang.
Lefel 4	• Cynllun da ar y dodrefn i wneud y mwyaf o'r lle rhydd. Dylai gwesteion allu bwyta gyda'i gilydd yn gysurus mewn un lle. • Digon o le rhydd. • Lle mae cegin/man byw cynllun agored, dylid cael awyru digonol, e.e. ffan echdynnu fel nad yw ager ac arogleuon coginio yn amharu ar y lle byw.
Lefel 5	• Lolfa yn gyffredinol ar wahân i'r ystafell fwyta neu lolfa/ystafell fyw gyda chynllun da a digon o le. • Ystod ragorol o seddi cyfforddus. • Digon o le rhydd, a all gynnwys mwy nag un ystafell eistedd. • Defnydd rhwydd o gyfleusterau, e.e. defnyddio arwynebeddau a mynediad at bwyntiau pŵer a.y.y.b. • Dim sŵn ymwthiol.

7.4.5 Gwres, Golau ac Awyru

Mae'n ymwneud ag ansawdd a'r ddarpariaeth o ran golau a gwres, ac a yw'n ddigonol ar gyfer maint yr uned a nifer y gwesteion sy'n cael eu lletya. Dylid cael cydbwysedd o ran golau naturiol ac artiffisial lle bo'n briodol.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Lefelau addas o oleuadau wedi'u gosod yn y lle iawn (gan gynnwys ar risiau, landin a choridorau). • Lefelau gwresogi addas ar gyfer maint yr ystafelloedd, efallai nad ydynt yn awtomatig na'n sefydlog.
Lefel 2	• Lefelau eithaf da o oleuadau, gall fod yn brif olau ac un arall. • Gall y gwresogydd fod yn sefyll ar ben ei hun, ac efallai'n awtomatig neu'n cael ei reoli â thermostat.
Lefel 3	• Lefelau da o olau y gellir ei reoli ym mhob man, gan gynnwys ar risiau, landin a choridorau a.y.y.b. • Mae'n debygol bod mwy nag un ffynhonnell o olau e.e. golau wal, lampau. Digon o oleuni naturiol. • Lefelau effeithiol o wresogi sy'n darparu tymheredd cyffredinol cytbwys. • Gwresogyddion sefydlog, awtomatig wedi'u gosod yn iawn, y gellir eu rheoli gan thermostat.

Lefel 4	• Lefelau da iawn o olau y gellir ei reoli a allai gynnwys defnyddio pylyddion golau mewn ystafelloedd. Dylai fod nifer o oleuadau eraill e.e. lampau bwrdd, golau wal, golau lluniau a.y.y.b. • Gwresogyddion awtomatig, sefydlog a reolir gan thermostat.
Lefel 5	• Golau rhagorol sy'n creu effaith dda ac sy'n dangos yr ystafelloedd ar eu gorau. • Dylai golau fod yn ymarferol at bob diben, fel darllen a.y.y.b. • Lefelau gwresogi y gall y gwestai eu rheoli bob amser o'r dydd/nos. Efallai na fydd rhai stôr-wresogyddion yn bodloni'r gofyniad hwn.

Cynaliadwyedd	Golau – dylid cynyddu'r defnydd o fylbiau golau arbed ynni yn yr eiddo. Gellir gwneud mwy o ddefnydd o olau naturiol hefyd. Gwresogi – byddai insiwleiddio gwell a defnyddio mwy o wres a reolir gan thermostat a chylchfa gwresogi yn arbed ynni.

Mynediad	Dylid sicrhau y gellir addasu lefelau golau gyda phylydd golau a/neu lampau achlysurol ychwanegol. Dylid sicrhau y gall eich gwesteion gyrraedd llenni ffenestri a drysau, a'u bod yn hawdd i'w hagor a'u cau.

Tabl Trosi ar gyfer Bwlb Golau Arbed Ynni

Bwlb Golau Cyffredin	Bwlb Golau Arbed Ynni
100 wat	20 – 23 wat
75 wat	15 – 18 wat
60 wat	11 – 13 wat
40 wat	9 wat

7.5 Ystafelloedd Gwely

7.5.1 Addurn

Yn ogystal â waliau a nenfydau, asesir darpariaeth ac ansawdd lluniau a phrintiau a phob addurn wal yma. Mae'r asesiad o addurn waliau, nenfydau a gwaith coed yn ystyried eu hansawdd, eu gosodiad a'u cyflwr. Ni ystyrir chwaeth bersonol yr aseswr o ran arddull nac addurn.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Décor ymarferol a chyd-drefniant cyfyngedig. • Cerfwedd ac addurn cyfyngedig.
Lefel 2	• Décor wedi ei osod yn fedrus ac o ansawdd eithaf da. • Ambell i nam amlwg.
Lefel 3	• Y tu mewn yn dda, gyda thystiolaeth o ddylunio wedi'i gyd-drefnu. • Gorchuddion wal a phaent o ansawdd da, wedi'u gosod yn ôl safon broffesiynol. • Defnydd o luniau a.y.y.b. lle bo'n briodol, yn enwedig ar waliau plaen.
Lefel 4	• Gorffeniad o safon broffesiynol mewn cyflwr da iawn gyda lefel briodol o addurn yn gweddu i'r arddull.

Lefel 5	• Dylunio mewnol ac argraff gyffredinol ragorol. • Gorchuddiadau wal o ansawdd uchel mewn cyflwr ardderchog; gorffeniad proffesiynol i bob agwedd ar yr addurno. • Defnydd deniadol o luniau, printiau ac addurn arall. • Nodweddion pensaernïol diddorol, gwrthrychau diddorol, celfwaith, gwrthrychau celf, trefniadau blodau.

7.5.2 Lloriau

Mae'n cynnwys pob math o orchudd llawr, fel carpedi, laminad, pren naturiol neu feinil.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Lloriau digon cyfforddus. • Gall gorffeniadau gynnwys carpedi, lloriau pren solet, feinil, a.y.y.b.
Lefel 2	• Ansawdd gweddol i dda, ond gall carpedi fod â chynnwys ffibrau uchel. • Ychydig o ddifrod i deils.
Lefel 3	• Lloriau o ansawdd a chyflwr da, ac yn gyfforddus dan draed.
Lefel 4	• Lloriau o ansawdd uchel, ond heb fod yn newydd yn angenrheidiol, gallant ddangos ôl traul neu ansawdd fwy cymedrol, ond mewn cyflwr rhagorol. • Wedi eu ffitio'n broffesiynol fel arfer. Disgwylir rygiau o ansawdd uchel ar loriau pren neu laminad.
Lefel 5	• Lloriau o ansawdd uchel mewn cyflwr ardderchog. Dim ôl traul, ac wedi eu ffitio yn broffesiynol.

Cyngor

Anogir rhoi isgarped o safon uchel i garpedi. Gall hyd yn oed isgarped o ansawdd uchel o dan garped o ansawdd is ei wneud yn fwy cyfforddus ac ymestyn ei oes.

7.5.3 Dodrefn, Dodrefn Meddal a Gosodiadau

Mae'n cynnwys dodrefn rhydd ac wedi'u gosod, llenni a rheiliau, clustogau, offer gwresogi a gosodiadau golau.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Ychydig o ddodrefn, dodrefn meddal a gosodiadau o ran ansawdd a dewis ond yn ddigonol; ychydig o gyd-drefniant. • Gall llenni fod heb leinin ond dylent gwrdd yn y canol, a dylai cysgodlenni redeg yn rhwydd. • Gall y gosodiadau golau a gwres fod heb ansawdd cynhenid.
Lefel 2	• Mwy o ddodrefn, a all fod wedi dyddio neu dreulio, ond yn gadarn. • Dim graddfa fawr o gysur i westeion. • Llenni o well ansawdd, yn lân ac yn rhedeg yn llyfn. • Gosodiadau golau a gwres o safon eithaf da.
Lefel 3	• Darpariaeth helaeth sy'n cynnwys bwrdd gwisgo a stôl, droriau a.y.y.b. ym mhob ystafell. • Lle i hongian dillad mewn cwpwrdd dillad neu le gyda llen ym mhob ystafell wely. • Gosodiadau o ansawdd da, sy'n gadarn ac mewn cyflwr y gellir eu defnyddio. • Defnydd da o gyd-drefniant. • Nifer y dodrefn yn cyfateb i faint o le sydd ar gael.

Lefel 4	• Bwrdd gwisgo, cwpwrdd dillad a droriau ym mhob ystafell wely. • Dodrefn o ansawdd uchel, ddim yn newydd yn angenrheidiol, ond yn gyfforddus ac yn rhoi digon o le. • Llenni yn llawn ac efallai gydag ychwanegiadau fel defnydd clymu'n ôl. • Gosodiadau golau a gwres o ansawdd da iawn wedi'u cynnal a chadw mewn cyflwr da iawn.
Lefel 5	• Dodrefn modern, atgynhyrchiadau neu hen ddodrefn o ansawdd rhagorol, ac yn gadarn. • Cyd-drefniant rhagorol o ddodrefn a dodrefn meddal o ansawdd cynhenid uchel. • Nodweddion ychwanegol, e.e. clustogau a.y.y.b. • Gorchudd ffenestri o ansawdd rhagorol, wedi'i osod yn dda gyda digon o ddefnydd ac yn hongian yn dda. • Gosodiadau golau a gwres o ansawdd da mewn cyflwr gwych.

7.5.4 Gwelyau

Mae'n cynnwys ansawdd a chyflwr byrddau pen neu gyfwerth, gwaelod gwelyau, matresi a fframiau.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Gwelyau a matresi o ansawdd derbyniol. • Dylai fod gan bob gwely fwrdd pen neu gyfwerth.
Lefel 2	• Gwelyau o ansawdd eithaf da, ond gall y matresi fod yn denau a'r gwaelod yn fas.
Lefel 3	• Gwely o ansawdd da a chyfforddus, matresi cadarn a'r gwaelod yn dda. • Gall byrddau pen a fframiau'r gwely fod o arddull hŷn, ond mewn cyflwr da.
Lefel 4	• Matresi cadarn o ansawdd da iawn, gyda gwaelod safonol â sbringiau. • Bwrdd pen a ffrâm mewn cyflwr da iawn.
Lefel 5	• Gwely o ansawdd rhagorol e.e. matres â sbring a gwaelod o safon uchel. • Bwrdd pen glân, efallai yn cynnig graddfa uchel iawn o gysur.

Cyngor

Os yw matresi yn pantio, dylid cael rhai newydd. Dylid troi a chylchdroi matresi er mwyn iddynt bara'n hwy.

Ystafelloedd Gwely mewn Galeri

Rhaid i ystafell wely mewn galeri gael ei hysbysebu felly yn y pamffled.

Lle mae eiddo ag ystafell wely mewn galeri i ddau o bobl yn unig, yna mae modd cyrraedd unrhyw raddfa Seren. Os yw eiddo yn cynnig llety i fwy na dau o westeion a bod ystafell wely mewn galeri, rhaid hysbysebu hyn yn glir yn y pamffled a phob hysbyseb, a'r raddfa uchaf y gellid ei chael yw 4 Seren. Mae hyn oherwydd diffyg preifatrwydd, arogleuon, cau allan y golau a tharfu oherwydd sŵn.

7.5.5 Dillad a Dillad gwely

Mae'n ystyried ansawdd a chyflwr gobenyddion, duvet, blancedi a chynfasau, gorchuddion gobenyddion a matresi, falansau a chwrlid gwely.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Gwelyau o ansawdd derbyniol, dillad gwely glân lle darperir hwy, a gorchuddion y gwely mewn cyflwr da. • Ystod ddigonol o ddillad gwely, gan gynnwys digon o flancedi a/neu dduvet. • Os darperir dillad gwely ychwanegol, dylent fod yn lân a ffres, o ddewis wedi eu lapio er mwyn eu cadw'n lân. Gall gobenyddion fod yn fwy fflat ac wedi eu llenwi â ffibr gwneud.
Lefel 2	• Gall lliw'r dillad gwely fod wedi treulio, ond mae rhywfaint o ymdrech i'w gyfatebu. • Gobenyddion heb staeniau ac yn llawnach.
Lefel 3	• Gwelyau wedi eu cyflwyno'n dda iawn, gyda dillad gwely wedi eu cyd-drefnu ac o ansawdd da. • Gall falansau fod ar welyau divan. • Gobenyddion a dillad gwely ychwanegol ar gael. • Dylai gobenyddion fod yn sylweddol.
Lefel 4	• Dillad gwely o ansawdd da iawn wedi eu cyd-drefnu â'r dillad gwely a'r ystafell. Gellir cynnig dewis o obenyddion e.e. plu neu ffibr gwag. Gellir disgwyl gwarchodwyr gobenyddion ar y lefel hon. • Gall falansau fod o ansawdd uchel ac wedi plethu.
Lefel 5	• Dillad gwely wedi'u cyd-drefnu a'u golchi'n dda. Dewis o ddillad gwely ar gael e.e. gorchuddion gwely a blancedi wedi cwiltio'n drwchus, neu o ansawdd tebyg, neu dduvet gyda'r raddfa tog briodol. Y cyfan o ansawdd uchel ac wedi'i gyd-drefnu gyda décor yr ystafell wely a dodrefn meddal arall. • Lle defnyddir duvet, yna dylid ystyried haelioni'r maint, e.e. duvet dwbl ar welyau sengl. • Disgwylir gorchuddion matresi wedi'u padio, a gwarchodwyr gobenyddion.

Mynediad	Darparu dillad gwely hypoalergenig.

7.5.6 Golau, Gwres ac Awyru

Mae'n ymwneud ag ansawdd a darpariaeth golau a gwres, ac a yw'n ddigonol ar gyfer maint yr ystafell a'r gofynion e.e. darllen yn y gwely, gwisgo colur, a defnyddio sychwr gwallt wrth fwrdd gwisgo. Dylid cael cydbwysedd o olau naturiol ac artiffisial, lle bo'n briodol. Rhaid i'r gwres fod yn ddigonol ar gyfer maint yr ystafell ac i ymdopi â gofynion gwesteion gwahanol.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Golau digonol wedi'i leoli'n addas at ddefnydd ymarferol. • Lefelau gwresogi addas ar gyfer maint yr ystafell, efallai nad yw'n awtomatig nac yn sefydlog.
Lefel 2	• Lefelau golau eithaf da, gall fod prif olau ac un golau ochr. • Gall y gwresogydd fod yn sefyll yn ar ben ei hun, ac efallai'n awtomatig neu'n cael ei reoli â thermostat.
Lefel 3	• Goleuadau mewn mannau da sy'n rhoi lefelau da o olau sy'n hawdd ei reoli yn y nos. • Lefelau effeithiol o wresogi sy'n rhoi tymheredd cyffredinol cytbwys.

Lefel 4	• Lefelau da iawn o olau â mynediad hawdd i'w reoli. Gellir defnyddio mathau gwahanol o oleuadau e.e. goleuadau wal a lampau. • Gwresogyddion sefydlog, awtomatig wedi'u gosod yn iawn, y gellir eu rheoli â thermostat.
Level 5	• Goleuadau o ansawdd ardderchog, wedi'u gosod mewn mannau da, sy'n rhoi lefelau ardderchog o olau at wahanol ddibenion, e.e. darllen ac wrth y bwrdd gwisgo. • Byddai'n ddymunol rheoli'r prif olau o'r drws ac o'r gwely. • Lefelau gwresogi y gellir eu rheoli'n llawn bob adeg o'r dydd a'r nos. Efallai na fydd rhai stôr-wresogyddion hŷn yn bodloni'r gofyniad hwn.

Cyngor

Gallai lampau ochr gwely gyda swîts cudd fod yn anodd eu cyrraedd ganol nos, felly hefyd gorchuddion bychain heb fawr o le i gyrraedd y swîts. Os oes llawer o ddillad o gwmpas y gwely, e.e. gwelyau pedwar postyn, yna gall rhywfaint o'r golau o'r lamp gael ei guddio, felly rhaid meddwl mwy am ei safle.

Rhoddir mwy o farciau lle cymerwyd gofal i ddarparu golau ym mhob rhan o'r ystafell lle gall fod ei angen, e.e. wrth y bwrdd gwisgo a ger y cwpwrdd dillad neu ynddo.

Dylai goleuadau gwelyau bync fod wedi eu gwifrio'n galed er diogelwch.

7.5.7 Gofod, Cysur a Rhwyddineb Defnyddio

Mae'n ystyried y defnydd o ofod a sut mae'r ystafell wedi'i chynllunio i fod mor gyfleus â phosibl i westeion ac yn hawdd i'w defnyddio. A oes angen symud dodrefn er mwyn defnyddio'r cyfleusterau? A oes rhywle i storio bagiau?

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Symudiad rhesymol rhydd heb ei gyfyngu'n ormodol gan nenbrennau a nenfydau isel. • Gall dodrefn mawr fod yn rhy ymwthiol mewn ystafell a'i gwneud yn anos ei defnyddio. • Ychydig iawn o ystyriaeth i gynllun ystafell. • Dim llawer o sŵn ymyrrol o'r plymwaith, coridorau a.y.y.b.
Lefel 2	• Lefelau eithaf da o gysur ac ystod gyfyngedig o ddodrefn. • Defnydd hawdd o'r cyfleusterau heb edrych yn orlawn.
Lefel 3	• Digon o le i ganiatáu symud yn rhydd a digon o gysur. • Defnydd hawdd o'r cyfleusterau. • Cynllun cyfleus i'r dodrefn at ddefnydd ymarferol. • Hawdd cyrraedd dwy ochr gwelyau dwbl.
Lefel 4	• Cynllun da ar y dodrefn i wneud y defnydd mwyaf o le rhydd, hael. Gall ystafelloedd fod yn llai nag ar gyfer 5 seren, ond byddai lleoli'r dodrefn yn ddoeth yn gwneud hyn yn dderbyniol. • Hawdd iawn cyrraedd dwy ochr gwelyau dwbl.
Lefel 5	• Dylai'r ystafell wely fod o ddigon o faint i ganiatáu darparu'r holl ddodrefn ystafell wely priodol a dal i ganiatáu cyrchu'n rhwydd wrth ddefnyddio'r cyfleusterau hyn. • Lle ar gael i storio bagiau heb wneud yr ystafell yn llawn a rhwystro mynediad. Does dim rhaid i hyn fod mewn ystafell wely. • Defnydd rhwydd a hwylus o'r cyfleusterau, e.e. cyrraedd pwyntiau pŵer a.y.y.b. • Digon o le i gyrraedd dwy ochr gwely dwbl. • Dim sŵn ymyrrol.

Cyngor

Wrth gynllunio ystafell wely, ystyriwch yn ofalus a fydd rhoi gormod o welyau yn cyfyngu ar y lle i'r gwesteion. Efallai trwy gymryd llai o westeion, gallwch greu profiad o ansawdd uwch, gan y gallant ddefnyddio'r ystafelloedd yn hollol gyfforddus. Bydd ystafelloedd gorlawn yn anorfod yn sgorio'n is yn yr adran hon o'r asesiad

Ystyriwch efallai na fydd gwesteion bob amser yn dadbacio a/neu y gall fod arnynt angen rhywle i storio eu bagiau.

Nid yw ystafelloedd gwely mewn galeri mewn unedau ar gyfer mwy na 2 o bobl yn debygol o sgorio'n uchel yn yr adran hon oherwydd diffyg preifatrwydd, ac ymyrraeth sŵn, golau ac arogleuon.Mae ystafelloedd gwely gyda 'llwyfannau cysgu' heb fawr o le i godi a matresi ar y llawr hefyd yn annhebyg o sgorio'n uchel yn yr adran hon. Dylid cael digon o socedi mewn mannau hwylus ar gyfer pob defnydd. Bydd hyn yn cynnwys pwyntiau pŵer ar gyfer goleuadau, clociau larwm wrth ochr gwelyau ac un ger drych i'w ddefnyddio gyda sychwyr gwallt a.y.y.b. Dylai'r rhain fod yn hawdd eu cyrraedd heb orfod defnyddio plygiau addasu na lidiau estyn, a all fod yn beryglus.

Dylai goleuadau gwelyau bync fod wedi eu gwifrio'n galed er diogelwch.

Cynaliadwyedd	Dylid defnyddio mwy o fylbiau golau arbed ynni. Gellir gwneud mwy o ddefnydd o olau naturiol hefyd. Gellid defnyddio arwyddion yn gofyn i westeion ddifodd y goleuadau pan na chânt eu defnyddio. Nid oes angen rhoi dillad gwely sbâr mewn bagiau plastig; gellir ei roi mewn bad cotwm neu ffabrig y gellir ei ailddefnyddio.

7.6 Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau

7.6.1 Addurn

Mae hyn yn cyfeirio at ansawdd a chyflwr décor waliau a nenfydau, gan gynnwys teils, growt a deunydd selio.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Décor ymarferol gydag ychydig o gyd-drefniant.
Lefel 2	• Ansawdd a chyflwr décor eithaf da, ond efallai fod ychydig ôl traul.
Lefel 3	• Décor ymarferol mewn cyflwr da, gorchuddion waliau a nenfydau wedi eu gosod yn dda. Popeth mewn cyflwr da.
Lefel 4	• Gall fod wedi cael ei ail-addurno'n ddiweddar ond nid yw o'r ansawdd gorau, neu ansawdd ardderchog ond wedi dyddio ychydig.
Lefel 5	• Cynllunio mewnol rhagorol. • Gorffeniad proffesiynol i bob agwedd ar yr addurno. Gorffeniadau o'r ansawdd uchaf i orchuddion waliau; teils, growt a deunydd selio wedi eu gosod yn dda ac o ansawdd uchel. • Defnydd deniadol o addurniadau, lle bo'n briodol.

Cyngor

Does dim rhaid i waliau gael eu gorchuddio'n llawn â theils (neu'r hyn sy'n cyfateb), ond dylid gorchuddio'r mannau sy'n debygol o ddod i gysylltiad â dŵr.

Cadwch y growt a'r deunydd selio mewn cyflwr da rhag iddo fynd yn ddi-liw a di-raen. Argymhellir defnyddio deunydd selio sy'n gwarantu gwrthsefyll llwydni yn y tymor hir. Lle bo modd, dylid gosod blwch o gwmpas pibelli o ran rhwyddineb glanhau ac er mwyn iddynt edrych yn well.

7.6.2 Lloriau

Mae'n cynnwys ansawdd a chyflwr carpedi, lloriau feinil, lloriau pren, laminad a theils seramig. Mae lloriau di-lithro bob amser yn syniad da mewn ystafelloedd ymolchi.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Lloriau ymarferol, di-lithr gyda chysur digonol dan draed.
Lefel 2	• Lloriau o ansawdd eithaf da. Ychydig iawn o ddifrod i'r teils.
Lefel 3	• Lloriau o ansawdd a chyflwr da a chyfforddus dan draed.
Lefel 4	• Lloriau o ansawdd uchel ond ddim yn newydd o angenrheidrwydd. Rhywfaint o ôl traul, neu ansawdd mwy cymedrol mewn cyflwr ardderchog.
Lefel 5	• Lloriau o ansawdd rhagorol, mewn cyflwr ardderchog. Dim gwir ôl traul, ac wedi'u ffitio'n broffesiynol.

Cyngor

Er bod carpedi yn gynnes dan draed, efallai nad dyna'r llawr gorau bob amser am resymau hylendid, a gall ddioddef difrod dŵr.

7.6.3 Offer, Gosodiadau ac Offer Ymolchfa

Mae'n cynnwys tapiau, plygiau, pennau cawod, drychau, sgriniau/llenni cawod, rheiliau tywelion, pwyntiau eillio, gosodiadau golau a gwres, ffannau echdynnu, dodrefn ystafell ymolchi (baddon, cawod, toiled, basn a bidet), tywelion, llenni a chysgodlenni.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Gosodiadau o ansawdd derbyniol. • Gorchudd ffenestr addas, wedi ei osod yn dda. • Digon o bwysedd dŵr a draenio boddhaol i wneud defnydd ymarferol o'r cyfleusterau. • Arwynebedd gwastad ar gael ar gyfer eiddo'r gwesteion.
Lefel 2	• Gosodiadau o ansawdd eithaf da ond gallant fod wedi dyddio neu dreulio.
Lefel 3	• Offer solet o ansawdd da sy'n cydweddu ac sydd wedi cael eu gosod yn dda. • Dodrefn ystafell ymolchi a baddon neu sylfaen cawod yn cyd-fynd â'i gilydd. • Gorchudd ffenest wedi'i osod yn dda, sy'n ddigon llydan ac uchel i dynnu ar draws y ffenestr gyfan. • Digon o le ar silffoedd ar gyfer eiddo gwesteion. • Pwynt eillio sefydlog a golau ger y drych.
Lefel 4	• Gosodiadau o ansawdd uchel yn gyffredinol, ychydig o ôl traul. Baddon o faint da. Sgrin gawod neu len trwm, o ansawdd uchel. • Holl ddodrefn yr ystafell ymolchi mewn cyflwr da, dim craciau, mân graciau na phylni.

Lefel 5	• Baddon neu gawod wedi ei ddarparu, gyda darnau gosod a gosodiadau o ansawdd uchel, e.e. cabanau cawod neu sgriniau cawod, a chawodydd a reolir â thermostat. Baddon a basn ymolchi maint llawn yn yr ystafell wely neu en suite. Offer hawdd eu defnyddio. • Gorchudd ffenestr o ansawdd rhagorol, wedi'i osod yn dda, yn ddigon llydan ac yn hongian yn dda. • Digon o silffoedd cyfleus ar gyfer eiddo'r gwesteion.

Cyngor

Bydd asesu gosodiadau ystafell ymolchi yn ymdrin â'u hansawdd a'u cyflwr cynhenid. Bydd rheiliau tywelion neu silffoedd plastig bregus yn sgorio'n is na gosodiadau pren, metel neu seramig o ansawdd uchel. Bydd gosodiadau sy'n cydweddu fel arfer yn sgorio mwy na chymysgedd o wahanol arddulliau.

Bydd sgrin gawod gadarn wedi'i gosod yn dda yn sgorio'n uwch na llen blastig denau sy'n dueddol o "lynu" at y gwestai wrth gael cawod. Os nad yw sgrin y gawod yn ffitio'n dda neu wedi'i gosod yn lletchwith fel ei bod hi'n anodd cyrraedd y tapiau a.y.y.b., yna gostyngir y marc. Byddai baddon haearn bwrw cadarn yn sgorio'n uwch na baddon plastig rhad sy'n symud ac yn gwichian. Os yw arwynebedd y baddon yn bwl, wedi'i grafu neu'i staenio, bydd yn sgorio llai.

Rhoddir credyd yn yr asesiad am ddarparu bachau o ansawdd da ar ddrysau, silffoedd neu arwynebeddau hwylus eraill ar gyfer nwyddau ymolchi a chyfarpar. Rhaid ystyried lle ar silffoedd a rheiliau tywelion pan letyir mwy o bobl. Gellir darparu mwy o reiliau tywelion mewn ystafelloedd gwely. Dylai safle drychau fod yn addas i westeion o wahanol daldra.

Lle mae cawod dros y baddon, yna mae'n well darparu silff/dysgl sebon ar lefel sefyll, yn ogystal ag ar lefel eistedd yn y baddon.

Ystyriwch faint y cabanau cawod a'r baddonau – a oes lle ynddynt i westeion mwy o faint?

Cynaliadwyedd	Defnyddiwch osodiadau a reolir â thermostat ar gyfer dŵr poeth. Gellid defnyddio dyfeisiau arbed dŵr fel 'Hippos' mewn sestonau toiledau. Nid oes angen lapio sebon a chynhyrchion di-dâl yn unigol – gellir eu cyflwyno mewn cyflenwyr deniadol ac addas. Bydd yr aseswyr yn asesu ansawdd y cynhyrchion a gynigir ac arddull y cyflwyniad. Nid oes angen i'r cwpan/gwydr yfed sbâr fod yn blastig nac wedi'i lapio. Er y gall darparu cyfleusterau cawod helpu i leihau'r defnydd o ddŵr, cofiwch y gall cawodydd pwerus ddefnyddio mwy o ddŵr na baddon. Felly, ystyriwch ddefnyddio pennau cawod llif is neu gawodydd llif disgyrchiant, lle bo'n bosibl.

Mynediad	Dylai fod falf cymysgu ar osodiad pob cyflenwad dŵr poeth a reolir i uchafswm o 41˚C i osgoi llosgi. Dylid darparu detholiad o offer fel seddau baddon, codwyr uchder sedd toiled, a chadeiriau cawod. Dylid darparu rheilen gymorth wrth atodion y gawod.

7.6.4 Golau, Gwres ac Awyru

Mae'n ymwneud ag ansawdd a darpariaeth golau a gwres, a ph'un a yw'n ddigonol ar gyfer maint yr ystafelloedd ymolchi. Bydd diffyg gwres a/neu awyru digonol yn achosi anwedd. Dylid cael cydbwysedd rhwng golau naturiol ac artiffisial, lle bo'n briodol.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Lefelau gwresogi addas i'r maint. Dylai fod yn sefydlog er diogelwch. • Golau digonol mewn lle addas at ddefnydd ymarferol. • Efallai mai ffenestr yn unig a ddarperir ar gyfer awyru.
Lefel 2	• Gwresogydd sy'n cynnig lefel dda o wres a gellir ei reoli'n awtomatig. • Lefelau eithaf da o olau.
Lefel 3	• Lefelau effeithiol o wresogi sy'n darparu tymheredd cyffredinol unffurf. • Goleuadau mewn safleoedd da sy'n darparu lefelau da o olau i'r wyneb.
Lefel 4	• Gwresogydd a reolir â thermostat wedi ei osod yn iawn. • Fel arfer, disgwylir ffan echdynnu a ffenestr sy'n agor. • Lefelau da iawn o olau, yn enwedig dros y drych neu gerllaw. • Gall fod gwahanol fathau o oleuadau.
Lefel 5	• Lefelau gwresogi y gellir eu rheoli'n llawn bob amser. Efallai na fydd rhai stôr-wresogyddion hŷn yn bodloni'r gofyniad hwn. Byddai gwres ychwanegol ar ffurf rheilen dywelion gynnes yn ddelfrydol. • Efallai y darperir ffan echdynnu wedi ei ffitio gyda rheolwr lleithder, yn ogystal â ffenestr. • Goleuadau mewn safle da, o ansawdd rhagorol, sy'n darparu lefelau ardderchog o olau.

Cyngor

Mae'n bwysig cael golau yn y lle iawn; dylai'r man o gwmpas y basn ymolchi a'r drych fod wedi'i oleuo'n dda. Os yw siâp yr ystafell ymolchi yn anarferol, yna dylid ystyried lleoliad y goleuadau. Mae cael golau dros y baddon a/neu'r gawod yn ddefnyddiol iawn ac yn ei gwneud hi'n fwy diogel i'w defnyddio.

Nid ydym yn annog bylbiau gwres/golau cyfun am resymau diogelwch. Ni fydd gwresogyddion bar a chylch pelydrol yn sgorio'n uchel. I gael y marciau uchaf, dylai gwres fod yn awtomatig ac yn cael ei reoli gan thermostat.

Ni allwch ddibynnu ar westeion i agor ffenestri ystafell ymolchi, yn enwedig mewn tywydd oerach, felly mae'n well gosod ffan echdynnu hefyd. Mae anwedd a llwydni yn cael ei achosi gan gyfuniad o ddiffyg gwres ac awyru, a bydd darparu gwres yn y cefndir a ffan echdynnu yn help i oresgyn hyn, yn enwedig un gyda rheolwr lleithder yn rhan ohoni (wrth i'r lleithder gynyddu, daw'r ffan ymlaen).

Cynaliadwyedd	Mae defnyddio rheiddiaduron a reolir â thermostat yn helpu i reoli'r defnydd o ynni.

7.6.5 Gofod, Cysur a Rhwyddineb Defnyddio

Mae'n ystyried y defnydd o ofod a chynllun yr ystafell er mwyn bod mor gyfleus â phosibl i westeion ac yn hawdd ei defnyddio er mwyn i'r gwesteion allu symud o gwmpas yn hawdd, gyda diogelwch o'r pwys mwyaf. Mae rhwyddineb defnyddio yn debygol o gael ei effeithio gan ormod o westeion yn rhannu un ystafell ymolchi, yn enwedig lle mae'r toiled yn yr ystafell ymolchi neu lle darperir baddon yn unig.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Digon o le a chynllun sy'n caniatáu defnydd ymarferol o'r cyfleusterau. • Ychydig bach o sŵn o'r plymwaith.
Lefel 2	• Lefelau eithaf da o gysur a nifer cyfyngedig o osodiadau. Defnydd hawdd o'r cyfleusterau. • Baddon, cawod a thoiled sy'n hawdd eu cyrraedd.
Lefel 3	• Digon o le i gyrraedd y cyfleusterau'n rhwydd, a'u defnyddio.
Lefel 4	• Cynllun da i ddodrefn yr ystafell ymolchi a'r gosodiadau i fod mor gyfleus a hawdd eu defnyddio â phosibl.
Lefel 5	• Digon o le i symud yn rhydd a chyrraedd y cyfleusterau'n hawdd. • Cynllun cyfleus gyda digon o le rhydd.

Cyngor

Wrth gynllunio ystafelloedd ymolchi, dylech ystyried e.e. peidio â rhoi gwresogyddion yn rhy agos i'r toiled a rhoi digon o bellter rhwng cyfleusterau, sy'n ei gwneud hi'n hawdd eu cyrraedd a'u defnyddio.

Ystyriwch nifer y gwesteion a'u nwyddau ymolchi mewn perthynas â faint o le sydd ar y silffoedd – a yw'n ddigonol? Os mai'r farchnad deuluol a dargedir, yna gall fod yn well darparu baddon, gan ei bod yn haws golchi plant bach mewn baddon yn hytrach na chawod.

Os dim ond cawod a ddarperir mewn eiddo i nifer fawr o westeion, yna dylid ystyried a yw'r tanc dŵr poeth yn ddigon mawr i lawer o'r gwesteion gael cawod un ar ôl y llall. Gallai cawod drydan neu foeler cyfunol ateb y broblem.

Mynediad	Tywelion (os cânt eu darparu) yn lliw gwahanol i'r waliau a'r llawr er mwyn cynorthwyo gwesteion â nam ar eu golwg.

7.7 Gegin

7.7.1 Addurn

Mae asesu addurn waliau, nenfydau a gwaith pren yn ystyried ansawdd gorffeniadau waliau, eu gosodiad a'u cyflwr. Mae hyn yn cynnwys cefn sblasio, teils, growt a deunydd selio. Asesir darpariaeth ac ansawdd lluniau a phrintiau a phob addurn wal yma hefyd. Mewn cegin, mae hylendid yn hollbwysig, a bydd angen ystyried addasrwydd y deunyddiau a'r gorffeniadau. Ni ystyrir chwaeth bersonol yr aseswr o ran arddull na chynllun.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Décor ymarferol gan gynnwys waliau a nenfydau. • Ychydig o farciau, sblasio, saim neu arwyddion eraill o goginio.
Lefel 2	• Décor o ansawdd a chyflwr da, ond gall fod ychydig ôl traul.
Lefel 3	• Décor ymarferol wedi ei gynnal mewn cyflwr da. • Wedi'i gyd-drefnu'n dda gyda gorffeniadau addas a pharhaol, fel teils mewn mannau gweithio, wedi'u gosod i safon dda.
Lefel 4	• Gall fod wedi cael ei ail-addurno'n ddiweddar ond nid o'r ansawdd uchaf, neu o ansawdd ardderchog wedi heneiddio ychydig.

Lefel 5	• Safon décor rhagorol, wedi ei osod yn broffesiynol. • Dylunio mewnol wedi ei gyd-drefnu. • Arwynebeddau cadarn iawn, sy'n dangos braidd dim ôl traul. • Growt wedi ei gadw'n dda mewn mannau lle mae teils.

Cyngor

Defnyddiwch ddeunydd sy'n addas ar gyfer cegin, e.e. paent cegin ac ystafell ymolchi a fydd yn gwrthsefyll staeniau a lleithder. Anogir cael cefn sblasio y tu ôl i offer, yn enwedig wrth y popty, sinc a chefn arwynebeddau gwaith.

7.7.2 Lloriau

Mae'n cynnwys ansawdd a chyflwr carpedi, llawr feinil a phren, laminad a theils seramig. Ystyrir ansawdd y gosod, yn enwedig o gwmpas unedau a nwyddau gwyn.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Lloriau wedi eu gosod yn dda. • Gall fod ychydig o ôl traul. Efallai na chafodd ei osod yn broffesiynol.
Lefel 2	• Lloriau o ansawdd eithaf da. • Gall fod yn garped neu'n orffeniad solet, ond dylai fod yn rhydd o rwygiadau, staeniau neu losgiadau.
Lefel 3	• Wedi ei gynnal yn arbennig o dda, hyd yn oed mewn mannau lle mae llawer o fynd a dod. Lloriau gwydn a da. • Teils â growt glân. • Llawr pren mewn cyflwr da.
Lefel 4	• Lloriau o ansawdd uchel, heb fod yn newydd o angenrheidrwydd. Gallant ddangos ychydig o ôl traul neu ansawdd mwy cymedrol mewn cyflwr gwych. • Wedi'u gosod yn broffesiynol fel arfer.
Lefel 5	• Lloriau o'r ansawdd uchaf mewn cyflwr ardderchog. • Hawdd eu glanhau ac wedi'u gosod yn broffesiynol.

Cyngor

Nid yw mor ymarferol â hynny cael carped mewn ceginau a gall arwain at broblemau gyda cholli neu losgi, yn ogystal â materion hylendid a glendid cyffredinol.

7.7.3 Golau, Gwres ac Awyru

Mae'n ymwneud ag ansawdd a darpariaeth golau a gwres ac a yw'n ddigonol ar gyfer maint y gegin. Dylid cael cydbwysedd o olau naturiol ac artiffisial lle bo'n briodol a dylai fod yn ddigonol i ddefnyddio'r popty a'r arwynebeddau gweithio yn ddiogel. Bydd diffyg gwres a/neu awyru yn creu anwedd. Mae awyru yn bwysig mewn ceginau a dylid gallu newid aer er mwyn cael gwared ar ager ac arogleuon coginio, yn enwedig mewn unedau cynllun agored. Gall ffenestr sy'n agor, os yw'n gweithio'n iawn, awyru'n ddigonol.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Lefelau ymarferol o olau artiffisial a/neu olau naturiol er diogelwch. • Gellir benthyg gwres lle bo cynllun agored, ond o lefel foddhaol er hynny. • Awyru digonol, efallai trwy agor ffenestri yn unig.
Lefel 2	• Lefelau eithaf da o olau. • Gwresogyddion sy'n cynnig lefel dda o wres a gellir eu rheoli'n awtomatig.

Lefel 3	• Golau da yn gyffredinol. Gall gynnwys golau yn uniongyrchol dros arwynebeddau gwaith. • Gall awyru da gynnwys peiriant echdynnu.
Lefel 4	• Lefelau da iawn o olau, yn enwedig dros drych neu gerllaw. • Gall mathau gwahanol o oleuadau fod yn amlwg. • Gwresogyddion wedi'u gosod yn iawn ac a reolir gan thermostat. • Gellid disgwyl ffannau echdynnu yn ogystal â ffenestri sy'n agor.
Lefel 5	• Golau rhagorol ym mhob ardal. • Rhaid bod pob man wedi'i oleuo'n dda gan gynnwys arwynebeddau gwaith a phentan/popty. • Gwresogyddion hawdd eu rheoli e.e. falf thermostat wedi'i osod ar reiddiaduron. • Gall peiriant echdynnu gynnwys rheolwr lleithder.

Cyngor

Ni allwch ddibynnu ar westeion i agor ffenestri cegin, yn enwedig mewn tywydd oerach, felly mae'n well rhoi ffan echdynnu hefyd. Mae anwedd a llwydni yn cael ei achosi gan gyfuniad o ddiffyg gwres ac awyru, a bydd darparu gwres yn y cefndir a ffan echdynnu yn helpu i oresgyn hyn, yn enwedig un gyda rheolwr lleithder yn rhan ohoni (wrth i'r lleithder gynyddu, daw'r ffan ymlaen).

7.7.4 Dodrefn a Gosodiadau

Mae'n cynnwys holl osodiadau'r gegin o ran ansawdd a chyflwr a bydd yn cynnwys unedau'r gegin a'r cypyrddau, arwynebeddau gwaith, llenni a chysgodlenni, gosodiadau golau a gwres, ffannau echdynnu ac unrhyw ddodrefn rhydd fel cadeiriau a byrddau cegin.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Gall arwynebeddau gwaith a mannau storio fod yn gyfyngedig ond yn ddigonol, gydag o leiaf un cwpwrdd neu silffoedd i gadw bwyd. • Rhaid bod pob arwyneb yn gadarn a drysau cypyrddau yn gweithio'n iawn.
Lefel 2	• Digon o arwynebeddau gwaith a chypyrddau at ddefnydd ymarferol. • Unedau o ansawdd eithaf da.
Lefel 3	• Mwy na digon o gypyrddau ac arwynebeddau gwaith. • Unedau o ansawdd da wedi'u gosod yn dda ac wedi'u cyd-drefnu. • Os yw'r lle bwyta yn rhan o'r gegin, cadeiriau a byrddau o ansawdd da gyda phadin ar y seddi, lle bo'n briodol. • Darpariaeth i'r holl westeion fwyta'n gysurus.
Lefel 4	• Llawer o arwynebeddau gwaith, yn rhydd o annibendod a chyfarpar. • Unedau o ansawdd da iawn ac wedi eu cynnal a chadw'n dda. • Digon o le i'r gwesteion storio bwyd a.y.y.b.
Lefel 5	• Arwynebeddau gwaith hael, o ansawdd a gorffeniad da, gan gynnwys unedau llawr a wal. • Unedau wedi'u gosod yn broffesiynol, o ansawdd ardderchog.

7.7.5 Cyfarpar Trydan/Nwy

Bydd yr holl offer trydanol a nwy yn y gegin yn cael eu hasesu yn yr adran hon gan gynnwys poptai, pentanau, oergelloedd a.y.y.b. Hefyd, ystyrir yr holl offer trydanol bach fel cymysgyddion bwyd a chwisgiau llaw a.y.y.b. Bydd offer fel peiriannau golchi, rhewgelloedd a.y.y.b. nad ydynt yn y gegin, ond mewn rhan arall o'r eiddo, fel ystafell offer neu eiddo'r perchennog, yn cael eu cynnwys yma.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Ychydig neu ddim darpariaeth y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol. • Er y gall rhai eitemau fod yn hŷn, dylent i gyd fod mewn cyflwr da ac yn gweithio.
Lefel 2	• Darperir rhai eitemau ychwanegol o gyfarpar, ond gallant ddangos ôl traul neu fod wedi dyddio.
Lefel 3	• Rhaid bod yr holl offer yn gweithio ac wedi'u cynnal a chadw'n dda, e.e. eitemau yn rhydd o ddifrod, marciau a.y.y.b.
Lefel 4	• Gall fod o ansawdd ardderchog, ond heb fod fel newydd. Darperir ystod dda iawn o gyfarpar.
Lefel 5	• Dewis eang o eitemau o ansawdd ardderchog a all gynnwys prosesyddion bwyd a.y.y.b. • Gall gynnwys popty lefel-hollt er rhwyddineb defnyddio. • Safonau uchaf o gyfarpar drwyddi draw.

7.7.6 Llestri, Cyllyll a Ffyrc, a Gwydrau

Mae'n cynnwys ansawdd, cyflwr ac ystod y llestri, cyllyll a ffyrc, a gwydrau ar gyfer prydau. Nid yw'n cynnwys offer coginio gwydr, er enghraifft.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Isafswm darpariaeth o ansawdd derbyniol. • Gall y llestri fod o ansawdd ymarferol trwm, oll o'r un patrwm. • Gall y cyllyll a'r ffyrc fod yn denau, o ansawdd isel a heb fod yn cyd-fynd â'i gilydd. • Dewis bychan o wydrau. Efallai nad ydynt yn cyd-fynd â'i gilydd.
Lefel 2	• Dylai'r llestri fod heb arwyddion o beidio â chyfateb, tolciau, staeniau na chraciau. • Gall y cyllyll a'r ffyrc fod yn ysgafn, ond dylent i gyd gyd-fynd â'i gilydd.
Lefel 3	• Cyllyll a ffyrc trymach yn rhydd o unrhyw ôl traul. • Mwy na digon o gyllyll a ffyrc, llestri a gwydrau ar gyfer uchafswm nifer y gwesteion. • Detholiad rhesymol o wydrau, o ansawdd da iawn.
Lefel 4	• Cyllyll a ffyrc o ansawdd da iawn, a'r cyfan yn cyd-fynd â'i gilydd. • Ansawdd da iawn ac fel newydd, neu ansawdd rhagorol ond mewn cyflwr sy'n llai na pherffaith.
Lefel 5	• Llestri tsiena o ansawdd rhagorol neu grochenwaith arall o ansawdd uchel. • Cyllyll a ffyrc dur gwrthstaen neu orchudd arian o'r ansawdd uchaf. • Gwydrau'n cyfateb yn dda, o ansawdd uchel, ac amrywiaeth fwy o feintiau. • Nifer o bob eitem yn fwy o lawer na'r nifer tebygol o ddeiliaid. • Nifer o eitemau ategol, e.e. potiau bychain, set goffi.

7.7.7 Offer Cegin a Sosbenni

Mae'r adran hon yn edrych ar ansawdd, ystod a chyflwr sosbenni, hambyrddau coginio, powlenni a dysglau coginio a gweini, yn ogystal ag offer. Dylai'r ystod a nifer ar lefel sylfaenol fod yn gymesur â nifer y gwesteion, h.y. bydd angen sosbenni a dysglau gweini mwy ar gyfer niferoedd uwch.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Sosbenni o ansawdd derbyniol a dewis cyfyngedig. • Nifer fach o offer nad ydynt yn cyd-fynd â'i gilydd. Gall rhai eitemau fod yn ysgafnach neu o ansawdd cynhenid is.
Lefel 2	• Sosbenni o ansawdd uwch. Handlenni'n sownd, a chaeadau sy'n ffitio'n dda. • Gall fod ystod eang o offer, ond heb fod yn cyd-fynd â'i gilydd.
Lefel 3	• Sosbenni mewn amrywiaeth o feintiau, oll yn solet ac yn drwm. • Dim hen offer plastig wedi'u hanffurfio. • Dewis eang o gyllyll, llwyau pren a.y.y.b.
Lefel 4	• Gall y sosbenni fod o ansawdd uchel ond yn dangos olion oed neu draul. • Mwy o ddewis o offer a llestri coginio o wahanol feintiau a defnydd.
Lefel 5	• Rhaid bod pob sosban a llestr coginio o'r ansawdd uchaf. Dylai'r dewis o sosbenni fod yn fwy na'r isafswm. • Dewis eang o eitemau ychwanegol, oll wedi eu cyd-drefnu, e.e. wok, gwasgwr garlleg, clorian gegin, gwasgwr sudd, gwarchodwr sblasio, llwy rydyllog a.y.y.b. • Dewis o eitemau sy'n addas i'w defnyddio yn y ficrodon.

7.7.8 Gofod, Cysur a Rhwyddineb Defnyddio

Bydd yr adran hon yn ymwneud â chynllun a dyluniad y gegin, gan ystyried yr elfen bwysig o ofod. Mae modd cael gormod o le, a bydd hynny'n effeithio ar ddefnydd ymarferol o'r gegin, e.e., cynllun sy'n atal rhwyddineb defnyddio. Ystyrir uchafswm nifer y bobl a all fod yn yr uned a'r lle yn y gegin ar gyfer y nifer hwnnw, yn enwedig os yn y gegin y mae'r lle bwyta, a bydd diogelwch yn ystyriaeth bwysig.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Lle cyfyngedig drwyddi draw, sy'n cynnwys lle storio, arwynebeddau gwaith a lle rhydd. • Digon o le i olchi a sychu llestri.
Lefel 2	• Digon o le a chynllun sy'n caniatáu defnydd ymarferol o'r cyfleusterau. • Modd cyrraedd yr oergell, popty a phentanau'n hwylus. • Tystiolaeth bod mwy o ystyriaeth wedi'i rhoi i'r tasgau gwahanol a gyflawnir yn y gegin.
Lefel 3	• Digon o le i gyrraedd y cyfleusterau'n rhwydd, a'u defnyddio. • Digon o le i storio bwyd.
Lefel 4	• Hawdd iawn defnyddio gyda digonedd o le yn enwedig o gwmpas byrddau bwyd os ydynt yn y gegin. • Hawdd iawn cyrchu pob uned, ac ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r triongl gweithio – popty, oergell, sinc. • Disgwylir mwy o le lle bydd unedau mwy a mwy nag un o bobl yn defnyddio'r gegin ar yr un pryd.
Lefel 5	• Digon o le fel bod modd cyrraedd a symud o gwmpas y cyfleusterau. • Cynllun hwylus iawn gyda digon o le. • Dylid cael lle helaeth i storio, ar gyfer bwyd a.y.y.b.

Cynaliadwyedd	Yn draddodiadol, ystyrir ailgylchu yn broses a gyflawnir y tu ôl i'r llen ac yn aml, ni eir i'r afael ag ailgylchu yn y cynlluniau ansawdd, ond gall ymwelwyr helpu gydag ailgylchu, ac mae llawer o bobl yn gyfarwydd â sortio ac ailgylchu gwastraff gartref. Mae digon o gyfleoedd i ddarparu cyfleusterau a fydd yn cynorthwyo ymwelwyr i helpu'r perchnogion gyda'i rhaglen ailgylchu, ac i'r perchnogion gyfleu eu hymrwymiad i ailgylchu. Gall aros hyd nes bod peiriant golchi llestri'n llawn arbed ynni, dŵr a glanedydd. Efallai y byddai gosod hysbysiad neu gerdyn cyngor yn y gegin yn nodi hyn yn helpu i atgoffa gwesteion i ddilyn y cyngor hwn. Yn ddelfrydol, dylai fod gan beiriannau olchi dillad, peiriannau sychu dillad, peiriannau golchi llestri, oergelloedd a rhewgelloedd, raddfa ynni'r UE o naill ai A neu B. Os oes angen offer newydd yn lle rhai sydd wedi torri, ystyriwch hyn. Hefyd, dylai'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol allu rhoi cyngor i chi a'ch cynorthwyo i gael gwared yn ddiogel ar nwyddau gwyn sydd wedi torri. Cysylltwch â nhw i gael cymorth.

7.8 Cyfleusterau Ychwanegol

Cyfleusterau yw'r rhain y gellir eu darparu fel rhan o becyn hunan ddarpar. Gofynion **dewisol** ydynt yn ôl gofynion cynllun graddio Seren Croeso Cymru, **ond os dewiswch eu darparu ar gyfer eich gwesteion**, yna ystyrir ansawdd, cyflwyniad a rhwyddineb eu defnyddio wrth asesu'r sgôr ansawdd. Os na chânt eu darparu, ni fydd effaith negyddol ar y raddfa Seren a roddir.

7.8.1 Golchdy

Golchdy pwrpasol y tu allan i'r eiddo (yn cynnwys golchdy'r perchennog ei hun) gyda chyfarpar i olchi, sychu a smwddio dillad: gellir ei rannu gyda'r perchenogion neu eiddo hunan ddarpar arall.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Rhaid bod yr holl offer yn gweithio. • Amgylchedd gwaith ymarferol. • Cyfarwyddiadau syml i ddefnyddio'r cyfarpar. • Gall oriau agor fod yn gyfyngedig.
Lefel 2	• Efallai fod rhywfaint o dystiolaeth o ôl traul. • Waliau a lloriau wedi eu gorffen i safon resymol. • Cyfarpar mwy addas i gartref. • Gall y cyfarwyddiadau fod yn fanylach.
Lefel 3	• Digon o gyfarpar at ddefnydd cyfleus. • Safle mewn cyflwr addurnol da. Cadw tŷ yn dda a dim byd wedi ei storio'n ddiolwg. • Gall y cyfarpar fod o safon cartref neu broffesiynol. • Oriau agor addas i'r math o gyfleuster a swyddogaeth, e.e. maint ac arddull.
Lefel 4	• Cyfarpar da a digonol, yn fwy na'r gymhareb peiriannau i unedau. • Gallai gynnwys man hongian dan do ar gyfer cotiau ac esgidiau gwlyb. • Mynediad 24 awr efallai – a all fod trwy ddefnyddio allwedd a.y.y.b. neu oriau agor estynedig i weddu i anghenion y cwsmer.

Lefel 5	• Safle gyda chyfarpar da mewn cyflwr addurnol ardderchog a safon uchel amlwg o lanweithdra. • Cynllun wedi ei drefnu'n dda gan ystyried rhwyddineb defnyddio yr holl offer. • Cyfarpar o ansawdd ardderchog wedi ei ddarparu a chyfarwyddiadau clir i'w ddefnyddio. Ystod o gyfarpar a all gynnwys peiriant golchi dillad, peiriant sychu dillad, sychwr dillad, cyfleusterau smwddio, cyfleusterau golchi â llaw a.y.y.b. • Mynediad 24 awr – a all fod trwy ddefnyddio allwedd a.y.y.b.

7.8.2 Hamdden

Gallai enghreifftiau gynnwys pwll nofio, barbeciw, tenis bwrdd, campfa, llwybr natur neu sawna. Nid oes rhaid darparu'r un o'r rhain, ac ni chaiff trefnwyr eu cosbi am beidio â'u cynnwys, ond lle maent yn bresennol, byddant yn rhan o'r asesiad.

Dangosyddion Ansawdd	
Lefel 1	• Cyfleusterau hamdden a mynediad cyfyngedig. • Rhaid bod yr holl offer wedi'i gadw mewn cyflwr diogel.
Lefel 2	• Dylai cyfleusterau fod o ansawdd da ac wedi cael eu cynnal a chadw i sicrhau eu bod yn gweithio.
Lefel 3	• Gall arbenigo mewn un prif fath o weithgaredd i safon dda. • Rhaid bod yr holl gyfleusterau a chyfarpar mewn cyflwr da. • Oriau agor yn addas ar gyfer y math o gyfleuster.
Lefel 4	• Dewis ehangach o gyfleusterau. • Cyfleusterau o safon uchel iawn, glân ac wedi eu cynnal a chadw yn dda. • Gall gynnwys ystafelloedd newid lle bo'n briodol.
Lefel 5	• Cyfleusterau wedi eu darparu i safon ardderchog a chyfarpar mewn cyflwr gwych. • Oriau agor estynedig yn gweddu i anghenion y cwsmer.

7.8.3 Derbynfa/Siop/Bar/Bwyty

Os darperir y rhain e.e. eiddo hunan ddarpar ar barciau carafanau, byddant yn rhan o'r asesiad.

Dangosyddion Ansawdd	
Level 1	• Derbynfa: efallai nad yw'n ystafell bwrpasol, ond yn rhan o ystafell/adeilad gweinyddol cyffredinol. Gall yr oriau agor fod yn gyfyngedig. • Siop: oriau agor yn gweddu i anghenion y cwsmeriaid. Gall fod yn gyfleuster rhannol gyda derbynfa. Popeth mewn cyflwr da gyda safon uchel o lanweithdra. • Bar/bwyty: cyfleuster i brynu prydau/byrbrydau/diodydd ar adegau penodol. Gall fod ychydig o seddi. Ystod gyfyngedig o fwyd a diod ar gael.
Lefel 2	• Derbynfa: décor, lloriau a dodrefn meddal mewn cyflwr da ac o ansawdd eithaf da. Gall oriau agor fod yn gyfyngedig. • Siop: stoc a maint cyfyngedig. Cyfleuster eithaf da yn gyffredinol, sy'n edrych yn daclus. • Bar/bwyty: digon o seddi i'r rhan fwyaf o'r gwesteion. Cyflwr ac ansawdd eithaf da yn gyffredinol.

Lefel 3	• Derbynfa: maint digonol ar gyfer rhwyddineb defnyddio a chysur y gwesteion. Ystod dda o wybodaeth am y safle a'r ardal ar gael. Defnydd a décor mewn cyflwr da a safonau uchel o gadw tŷ. Oriau agor addas i'r math o gyfleuster a swyddogaethau, e.e. maint a dull Canolfan Wybodaeth. • Siop: yn gyffredinol mewn lle da, stoc dda o nwyddau. Defnydd a décor mewn cyflwr da a safonau da o gadw tŷ. Oriau agor yn addas i'r math o gyfleuster a swyddogaethau e.e. ystod a math o nwyddau. • Bar/bwyty: addurn a safonau cadw tŷ da. Digon o seddi ar gyfer pob nifer sy'n debygol o'i ddefnyddio. Dewis da o fwyd a diod ar gael. Oriau agor addas ar gyfer y math o gyfleuster a swyddogaeth e.e. maint ac arddull.
Lefel 4	• Derbynfa: derbynfa mewn cyflwr addurnol da gyda desg gyfleus. Lefelau uchel o lanweithdra gyda sylw amlwg i fanylion. • Siop: y tu mewn a'r cyfarpar mewn cyflwr da iawn. Tystiolaeth o sylw i fanylion o ran glanweithdra. • Bar/bwyty: lle cyfleus, wedi ei gynllunio'n dda. Wedi'i addurno i safon uchel iawn ac mewn cyflwr da. Safonau uchel iawn o gadw tŷ. Seddi cyfforddus i'r holl westeion ac uchder addas ar gyfer bwyta. Dewis da iawn o fwyd /diodydd ar gael.
Lefel 5	• Derbynfa: y cyfleuster mewn safle cyfleus a gydag arwyddion da. Glân a thaclus iawn ac wedi'i addurno'n dda iawn. Oriau agor estynedig yn gweddu i anghenion y cwsmer. • Siop: stoc dda gyda dewis cynhwysfawr o nwyddau, glân a thaclus iawn ac wedi'i haddurno'n dda iawn. Oriau agor estynedig sy'n gweddu i anghenion y cwsmer. • Bar/bwyty: digon o le, wedi ei gynllunio'n dda ac yn gyfleus. Wedi'i addurno i safon wych ac mewn cyflwr ardderchog. Safonau cadw tŷ rhagorol. Dewis eang o fwyd/ diodydd ar gael. Oriau agor estynedig yn gweddu i anghenion y cwsmer.

8 Gofynion Cyfleusterau sy'n gymwys i bob lefel graddiad Seren

Darllenwch yr adran hon yng nghyd-destun y broses 3 cham a ddefnyddir wrth gyfrifo cyfanswm y graddiad Seren, fel yr eglurir ar dudalennau 3-5.

Sylwer: Fel y dywedom yn gynharach yn y canllaw hwn ar dudalen 5, rydym yn ymwybodol bod mathau penodol o lety na allant fodloni'r holl anghenion a restrir yma. Rhoddir eithriadau arbennig i'r lleiafrif bychan hwn, ac mae Croeso Cymru yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd o ran cydymffurfio â gofynion cyfleusterau. Ystyrir pob eiddo yn ôl ei rinweddau a'i sefyllfa ei hun.

Mae'r adran hon yn dechrau trwy roi hanfodion gofynnol ar gyfer lefel sylfaenol ar gyfer pob lefel Seren. Mae'n rhaid bodloni neu gyflenwi'r rhain er mwyn cael o leiaf graddiad 1 Seren. I gael graddiad yn uwch nag 1 Seren, e.e. 5 Seren, rhaid bodloni pob un o'r hanfodion gofynnol ar gyfer lefel sylfaenol yn ogystal â'r rhai sy'n angenrheidiol ar gyfer 2, 3 a 4 Seren ynghyd ag unrhyw ofynion atodol ar gyfer 5 Seren. Mae gofynion ychwanegol o'r fath hefyd wedi eu rhestru yn yr adran hon, ac yn dilyn y gofyniad gofynnol perthnasol.

8.1 Gofynion Cyffredinol

Os darperir y rhain e.e. eiddo hunan ddarpar ar barciau carafannau, byddant yn rhan o'r asesiad.

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Rhwymedigaethau Statudol	• Mae cyfrifoldeb ar bob perchennog i sicrhau bod yr holl rwymedigaethau statudol perthnasol sy'n weithredol yn cael eu bodloni, a bydd Croeso Cymru yn gofyn am gadarnhad wedi ei lofnodi, adeg y cais am raddiad ac adnewyddu, fod hyn yn wir. Hefyd, bydd Bwrdd Croeso Cymru yn gofyn i bob perchennog ddarparu tystiolaeth eu bod wedi prynu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a'i fod yn cael ei gynnal (isafswm yswiriant awgrymedig – £2 filiwn). • Mae'n rhaid cael offer ymladd tân yn yr eiddo a hysbysiadau yn ôl Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, sy'n gofyn i berchennog/unigolyn cyfrifol pob eiddo/busnes gynnal asesiad risg tân, a chymryd camau wedi hynny, fel sy'n briodol, i gael gwared ar y risg neu ei leihau.
Amrywiol Cyffredinol	• Wrth asesu pa mor dderbyniol yw'r arwynebedd llawr 'amgaeedig' sydd ar gael, bydd yr aseswyr yn ystyried y gofod defnyddiadwy o gwmpas y dodrefn a'r gosodiadau. Nid yw'r gofynion gofynnol yn debygol o gael eu bodloni os yw'r llety'n llai na'r canlynol: 18.60 m sg (200 tr. sg.) ar gyfer uned i 2 unigolyn, ynghyd â 7.40 m.sg. (80 tr. sg.) ar gyfer pob unigolyn ychwanegol a letyir fel arfer. Mae arwynebedd llawr amgaeedig yn cynnwys mannau byw, cysgu, coginio ac ymolchi. • Dylid ystyried rhyddid symud, a bod uchder y nenfwd ym mhrif ran yr ystafell yn ddigon i rywun sy'n 183 cm (6 tr.) allu symud o gwmpas heb orfod crymu. Mae bargodion a thoeau ar osgo yn dderbyniol ar yr amod na fyddant yn cyfyngu ar symudiadau gwesteion yn annerbyniol. • Hefyd, i gael lefel Seren uwch na'r lefel sylfaenol o 1 Seren, bydd gofyn i'r arwynebedd llawr fod yn fwy, gyda chryn dipyn mwy o ofod defnyddiadwy o gwmpas y dodrefn a'r gosodiadau. Mae'n rhaid bod lle rhesymol i symud o gwmpas yn yr ystafelloedd gwely/mannau cysgu a byw, a'i bod hi'n hawdd cyrraedd gwelyau, drysau a droriau. • Gellir agor drysau a droriau yn llawn. Dylid ystyried faint o le sydd ei angen ar gyfer dodrefn trosi e.e. gwely soffa. • Dylai'r holl osodiadau, dodrefn, dodrefn meddal, llestri, a chyllyll a ffyrc fod yn ddigonol ar gyfer uchafswm nifer y deiliaid, gan gynnwys unrhyw lety cysgu ychwanegol.

8.2 Cynnal a Chadw

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Rhwymedigaethau Statudol	• Rhaid i'r holl gyfarpar trydanol, nwy neu olew fodloni'r holl rwymedigaethau statudol perthnasol (gweler y Gofynion Cyffredinol). Rhaid iddynt fod mewn cyflwr da, wedi cael eu cynnal a chadw'n ddiogel a'u gwasanaethu'n rheolaidd, fel sy'n briodol. • Mae'n rhaid i ddarnau gosod, dodrefn, gorchuddion llawr a gosodiadau hefyd fodloni'r holl rwymedigaethau statudol perthnasol, yn enwedig mewn perthynas â diogelwch tân. Rhaid cynnal y rhain mewn cyflwr cadarn a glân, a rhaid iddynt fod yn addas at y diben a fwriadwyd. • Dylai'r tu allan fod yn rhydd o beryglon ar ffyrdd a llwybrau, a'r adeilad ei hun.

8.3 Iechyd, Diogelwch a Diogeledd

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Rhwymedigaethau Statudol	• Cadw safon uchel o ddiogelwch cyffredinol, gan gynnwys gwybodaeth diogelwch am weithdrefnau i'w dilyn mewn argyfwng. • Os nad yw'r perchennog yn byw yn yr eiddo, dylid arddangos ei henw/enw, cyfeiriad a rhif ffôn, neu wybodaeth gyswllt ei hasiant/asiant, sy'n gorfod meddu ar set o allweddi, mewn man amlwg, a manylion clir ynglŷn â sut i alw am gymorth y gwasanaethau brys. • Dylid dangos mewn man amlwg fanylion wedi'u hargraffu ar sut i alw am gymorth y gwasanaethau brys e.e. meddyg, deintydd, lleoliad y ffôn talu agosaf, yr uned ddamweiniau ac achosion brys, a'r milfeddyg (os derbynnir anifeiliaid anwes). • Rhaid bod trefniadau addas i waredu sbwriel ar gyfer pob uned, yn ôl gofynion yr Awdurdod Lleol. Lle darperir biniau, rhaid bod caeadau iddynt. Dylid nodi'r trefniadau casglu sbwriel mewn man amlwg. • Dylai deiliaid gael allwedd i ddrws eu huned, a lle bo'n gymwys, allwedd i gael mynediad i'r adeilad ac unrhyw gyfleusterau perthnasol eraill. • Dylid darparu o leiaf un larwm mwg ym mhob uned, wedi'i leoli'n addas mewn cyntedd neu landin. • Dylid darparu lefelau digonol o olau yn y nos er diogelwch a chysur pawb yn y mannau cyhoeddus, gan gynnwys ar risiau a landin ac mewn meysydd parcio a llwybrau/grisiau at yr eiddo yn y nos. • Dylai trydan fod ar gael (ddim o'r prif gyflenwad o angenrheidrwydd). Lle nad oes trydan, rhaid nodi hyn. Dylid nodi'r foltedd os nad yw'n dod o'r prif gyflenwad. • Lle bo trydan ar gael, dylid darparu nifer digonol o socedi pŵer, yn gymesur â nifer yr eitemau o offer trydanol a ddarperir. • Dylid cael rhyw fath o olau argyfwng, e.e. fflachlamp neu oleuadau nos. Nid yw canhwyllau yn dderbyniol. • Blwch Cymorth Cyntaf – Dim paracetamol nac asiprin. Gall y blwch fod mewn man canolog ar safle mawr, ond rhaid iddo fod ar gael 24 awr o'r dydd ac wedi ei hysbysebu'n dda.

8.4 Y Tu Allan

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Golwg Adeiladau	• Adeiladau wedi eu cynnal a chadw mewn cyflwr cadarn, glân ac addas at y diben. Digon o olau wrth y fynedfa.
Tir a Gerddi	• Gerddi ac/neu ardaloedd agored sy'n rhan o'r uned yn cael eu cynnal a chadw mewn cyflwr da. • Lle bo gerddi ar gael, yna dylid darparu dodrefn gardd. • Os oes mannau ategol i'r eiddo, caiff y cyfleusterau a ddarperir eu hystyried wrth asesu'r sefydliad. Dylent fod ag arwynebedd da, mewn cyflwr da ac wedi eu goleuo yn ddigonol.

8.5 Glendid

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Glendid	• Mae glendid yn hollbwysig i westeion, felly rhaid cadw a chynnal safon uchel o lendid yn yr eiddo drwyddo draw. Rhaid talu sylw arbennig i geginau, ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd cawod a thoiledau ac eitemau y daw gwesteion i gysylltiad uniongyrchol â hwy, fel dillad gwely, llieiniau, tywelion, baddon, cawodydd, basnau ymolchi, toiledau, lloriau, seddi, llestri, cyllyll a ffyrc, gwydrau, offer a chyfarpar cegin. • Cyfrifoldeb y perchennog yw gofalu bod pob eiddo yn cael ei lanhau yn drwyadl drwyddo draw, cyn gosod o'r newydd bob tro, hyd yn oed os yw'r gwesteion wedi glanhau cyn iddynt adael. Os oes unrhyw eitemau wedi torri neu ddifrodi, dylid rhoi rhai newydd yn eu lle.

8.6 Effeithlonrwydd Rheoli

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Archebu a Phrisiau	• Dylid ei wneud yn glir i'r gwesteion yn union beth sy'n gynwysedig yn y prisiau a ddyfynnir am yr eiddo gan gynnwys tâl gwasanaeth, trethi a gordaliadau eraill, e.e. trydan, tanwydd, llieiniau, tywelion, crudiau a.y.y.b. • Os yw TAW yn gymwys, dylid dangos yr holl brisiau gan gynnwys TAW ar y raddfa safonol. • Dylid darparu manylion llawn y llety, gan gynnwys trefniadau cysgu ac ystafelloedd ymolchi (p'un a oes baddon neu gawod) yn ysgrifenedig neu'n argraffedig cyn bwcio yn arferol. Lle darperir llety cysgu ar ffurf gwely soffa, gwelyau wal, gwelyau 'Z', gwelyau gwersyll a.y.y.b. yn ychwanegol at yr ystafelloedd gwely, nodwch yn glir fath, maint a nifer y llefydd gwely. • Dylid cyfleu manylion unrhyw bolisïau tŷ, e.e. dim ysmygu, dim anifeiliaid anwes, adeg bwcio. Os gofynnir am hynny, caniatewch i'r gwesteion weld yr eiddo cyn bwcio. Os oes rhywun yn yr eiddo, efallai na fydd modd gwneud hyn. • Dylai fod gwefan, pamffled neu daflen wybodaeth argraffedig (neu deipiedig) ar gael. Anogir rhoi cynllun llawr. Dylid dweud ymlaen llaw beth yw'r trefniadau mynediad.

Bwcio a Phrisiau	• Dylid dweud wrth ddarpar westeion, cyn bwcio, os codir tâl am wasanaethau neu gyfleusterau ychwanegol, gan gynnwys telerau canslo, blaendal ar gyfer cynnal a chadw tŷ a/neu doriadau. • Dylid dweud wrth ymwelwyr adeg bwcio neu wedi hynny os bydd unrhyw newid yn y manylion bwcio. • Ni ddylid codi mwy na'r prisiau a ddyfynnwyd adeg bwcio. • Dylid rhoi manylion taliadau sy'n ddyledus a derbynneb i ymwelwyr, os gofynnant am un. • Dylai'r dderbynneb fod yn glir ac wedi ei gosod allan yn dda. • Dylai'r wybodaeth ganlynol fod ar gael yn rhwydd cyn archebu: Trefniadau parcio ger yr uned, trefniadau ar gyfer anifeiliaid anwes, pellter yr uned o'r siopau agosaf a.y.y.b., pellter yr uned o'r drafnidiaeth gyhoeddus agosaf, cyflenwad dŵr i fodloni'r holl reoliadau statudol ar gyfer dŵr yfed, mathau o gyflenwad ynni os nad trydan ydyw, foltedd trydanol os nad yw'n safonol, map a/neu gyfarwyddiadau i'w darparu, yn dangos lleoliad yr uned adeg bwcio neu gyda'r pamffled. (Gall hwn gael ei ddarparu'n fanylach ar ôl archebu).
Croeso a Chyrraedd	• Rhestr o'r cyfarpar sydd ar gael.
Gwybodaeth i Westeion ac Ymwelwyr	• Gwybodaeth i Ymwelwyr ar gael. • Gweler hefyd yr adran ar Iechyd, Diogelwch a Gwarchod.

8.7 Y Tu Mewn – Cyffredinol

Gofynion Mynediad Gofynnol	
1 Seren	• Yr holl gyfleusterau i fod at ddefnydd un uned yn unig, er ar y lefel hon gallai pob uned a osodir beidio â bod yn hunan gynhwysol.*

Gofynion Ychwanegol	
2 Seren	• Ni ddylid cael mwy nag un uned heb fod yn hunan gynhwysol* ar bob llawr.
3 Seren	• Mae unedau heb fod yn hunan gynhwysol*, lle mae un uned yn unig a'r gwesteion yn cael defnydd llwyr o'r llawr uchaf, yn dderbyniol hyd at lefel Tair Seren. h.y. gwesteion a pherchnogion yn yr eiddo yn unig.
4 Seren	• Rhaid i bob uned fod yn hollol hunan gynhwysol.*

5 Seren	• Dim mesuryddion arian na systemau cardiau i dalu am danwydd. Fodd bynnag, mae darlleniadau mesurydd yn dderbyniol. Mae Croeso Cymru yn gofyn bod o leiaf dwy eitem o'r rhestr ganlynol o 15 eitem yn cael eu cynnwys yn yr uned, a dylai perchnogion fod yn gweithio tuag at ddarparu o leiaf 5 o'r rhain. Nid yw'r rhestr yn gyflawn, a gellir ystyried eitemau eraill, os cânt eu hystyried yn 'arbennig': Peiriant sychu dillad, ffôn, chwaraewr DVD/fideo, system sain/cerddoriaeth, gorsaf ddocio, consolau gemau, mynediad at y rhyngrwyd/diwifr, cyfrifiaduron/gliniaduron ac argraffwyr o bosibl i westeion eu defnyddio, sawna (yn yr uned), baddon sba, twb poeth (na rennir), cyfleuster coginio tu allan, setiau teledu ychwanegol mewn rhai/pob ystafell wely, llyfrgell helaeth/deunydd cyfeirio lleol, ysbienddrych/telesgop.

*** Beth yw ystyr Hunan gynhwysol?**

Rhaid i uned hunan gynhwysol fod ag ystafelloedd gwely, ystafelloedd ymolchi, mannau cyhoeddus a chegin oll y tu ôl i un prif ddrws, a'r deiliaid yn unig gaiff fynd atynt. Gall unedau nad ydynt yn hunan gynhwysol fod ag ystafell ymolchi a chegin y tu allan i brif ddrws yr uned, ond rhaid i'r ystafelloedd hyn fod wedi eu pennu ar gyfer defnydd unigol deiliaid yr uned honno.

8.8 Ardaloedd Byw a Bwyta

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Cyffredinol	• Bwrdd bwyd a chyfleusterau eistedd i uchafswm nifer y deiliaid. • Lle bo lle tân agored yn gweithio, dylid darparu gwarchodydd tân, procer, brws, gefel, cynhwysydd tanwydd a bwced lludw. • Cadair esmwyth a/neu seddi soffa, digon i uchafswm nifer y deiliaid yr hysbysebir ar eu cyfer. • Teledu lliw i'w ddarparu lle mae signal teledu ar gael, heb gost ychwanegol. Lle nad oes sianeli daearol ar gael, dylid gwneud pob ymdrech i roi dewis arall, fel cebl neu loeren. • Biniau sbwriel anfflamadwy i'w darparu mewn mannau byw.

Gofynion Ychwanegol	
4 Seren	• Darperir yr holl gadeiriau/seddi esmwyth yn y brif lolfa/lolfeydd.

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Lloriau	• Rhaid i'r holl ystafelloedd/mannau, coridorau a grisiau fod â gorffeniad neu orchuddion addas.
Dodrefn, Dodrefn Meddal a Gosodiadau	• Rhaid bod llenni, cysgodlenni neu gaeadau didraidd ar bob ffenestr allanol yn y mannau byw. Hefyd, bydd angen gorchuddio gwydr mewn drysau allanol/mewnol lle defnyddir y lolfa i gysgu neu lle gallai mater diffyg preifatrwydd godi. (Rhaid rhoi llenni ar frig ffenestr â ffrâm 'A' a ffenestri mewn to os defnyddir y lolfa fel llety cysgu). • Lle mae llety cysgu mewn mannau byw, rhaid cael digon o le i storio dillad gwely a dillad y gwesteion.

Gwresogi ac Awyru	• Rhaid cael dull gwresogi digonol bob amser, sy'n golygu y darperir gwres yn y mannau cysgu. (Nid ydym yn argymell gwresogyddion paraffin a nwy Calor ar eu pennau eu hunain am resymau diogelwch). • Dylai fod o leiaf un ffenestr sy'n agor allan yn uniongyrchol i'r awyr agored ym mhob ystafell fyw.
Golau	• Rhaid i'r holl fannau byw gael golau digonol a rhaid cael gorchuddion ar y goleuadau (oni bai bod y bylbiau'n addurniadol, e.e. cannwyll). Dylid darparu'r lefelau isaf o olau er iechyd a diogelwch, ond bydd diffyg golau yn effeithio ar y sgorau ansawdd. Bydd disgwyl watedd uwch ac ystod o oleuadau mewn ystafelloedd mwy.

8.9 Ystafelloedd Gwely

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Lloriau	• Rhaid cael gorffeniad neu orchuddion addas ar bob llawr. • Nid yw darparu rygiau ar loriau pren/laminad yn ofyniad gofynnol, ond gallai peidio â'u darparu effeithio ar sgorau ansawdd, gan ddibynnu ar ansawdd y llawr a threfniadau gwresogi.
Dodrefn, Dodrefn Meddal a Gosodiadau	• Bwrdd/silff a golau wrth ochr pob gwely parhaol, gan gynnwys gwelyau bync (gall gwelyau twin rannu bwrdd a golau, a gall bync uchaf gael golau, ond dylid ond darparu silff lle mae'n ddiogel gwneud hynny). • Dylid darparu biniau gwastraff anfflamadwy. • Bwrdd gwisgo (neu gyfwerth) gyda drych, cwpwrdd dillad neu reilen hongian dillad a digon o ddroriau ym mhob uned, mewn o leiaf un ystafell ddwbl neu twin. Nid yw bachau ar gefn drysau a.y.y.b. yn dderbyniol; dylai dillad allu hongian yn rhydd. • Chwech o gambrenni i bob unigolyn. Nid yw cambrenni gwifren yn dderbyniol. (Mae lle ar silffoedd yn ddewis derbyniol arall yn lle droriau).

Gofynion Ychwanegol	
3 Seren	• Bwrdd neu silff ochr gwely a golau ar gyfer pob deiliad (gall gwelyau twin rannu). I welyau bync, mae angen golau ar gyfer pob deiliad, a dylid darparu silff i'r bync uchaf, ac eithrio lle nad yw'n ddiogel yn gwneud hynny.

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Gwelyau a Dillad Gwely	• Gwelyau Sengl – isafswm maint 183cm x 76 cm/6' x 2'6" Gwelyau dwbl – isafswm maint 183cm x 120cm/6' x 4'. • O leiaf un ystafell wely i oedolion heb welyau bync. • Dylid darparu pen gwely (neu gyfwerth) gyda phob gwely parhaol. • Rhaid i bob matras fod â sbring neu ewyn neu ansawdd tebyg, ac mewn cyflwr da. • Digon o ddillad gwely, h.y. cwrlid a dwy flanced i bob gwely, neu un duvet o raddfa tog addas, a dau obennydd yr un. Ar gyfer gosod yn y gaeaf, yn gynnar neu'n hwyr yn y tymor, dylid cael mwy o ddillad gwely. Dillad gwely glân, wedi'u crasu'n dda. • Gwarchodwr matras neu dan-flanced wedi'i ffitio ar bob gwely. (Nid yw gwarchodwyr matras plastig neu rwber yn dderbyniol at ddefnydd cyffredin. Lle darperir gorchudd rwber i blant, dylai fod fel dewis ychwanegol at y gwarchodwr matras arferol). • Lle darperir dillad gwely, dylid ei newid ar gyfer pob deiliad newydd a chynnig newid bob wythnos yn ystod y cyfnod gosod. Llieiniau a dillad gwely sbâr ar gael yn unol â chais. Rhaid i gynfasau fod yn gotwm neu boly-cotwm. • Lle ceir mynediad i ystafell wely trwy ystafell wely arall, rhaid gwneud hyn yn glir yn y pamffled. • Lle ceir mynediad i ystafell ymolchi trwy ystafell wely, yna rhaid gwneud hynny'n glir wrth hysbysebu'r unedau.

Gofynion Ychwanegol	
2 Seren	• Rhaid i bob gwely fod yn rhai maint llawn (ac eithrio'r rhai a nodir yn benodol mewn pamffledi, yn rhai plant, neu welyau soffa **oni bai mai dyma'r unig wely i oedolion yn yr uned**). – Gwely sengl i oedolyn – isafswm maint 190cm x 90 cm/6'3" x 3' – Gwely dwbl i oedolyn – isafswm maint 190cm x 137 cm/6'3" x 4'6" – Gwely maint plentyn – isafswm maint 183cm x 76 cm/6' x 2'6". • Rydym yn argymell y dylai gwelyau fod wedi cael eu paratoi'n barod os darperir dillad gwely.
3 Seren	• Rhaid gallu mynd at bob gwely dwbl o'r ddwy ochr; rhoddir eithriad ar lefel 3 Seren os yw gwely dwbl yn erbyn wal mewn ystafelloedd siâp lletchwith, ac mae ansawdd cyffredinol yr ystafell wely yn cyrraedd safon 3 seren. Ni fydd eithriadau ar gyfer gwelyau dwbl sydd wedi cael eu gosod mewn ystafelloedd sengl er mwyn cynyddu nifer y deiliaid. • Dillad gwely ar gael am dâl ychwanegol neu heb dâl ychwanegol. (Ni chynhwysir dillad gwely ar gyfer crud). Rydym yn argymell y dylai gwelyau fod wedi cael eu paratoi'n barod os darperir dillad gwely. • Rydym yn argymell y darperir sychwr gwallt yn yr eiddo.
4 Seren	• Dylai'r holl fannau cysgu a hysbysebir fod mewn ystafelloedd gwely yn unig. (Lle mae fflatiau stiwdio **i 2** yn cael eu hysbysebu felly, gwneir eithriad i hyn). • Darperir dillad gwely a chaiff ei gynnwys yn y tâl llogi. Rhaid paratoi'r gwelyau erbyn i'r gwesteion gyrraedd.

5 Seren	• Rhaid i bob gwely fod yn rhai maint llawn gan gynnwys gwelyau i blant (ac eithrio gwelyau 'Z' a ddefnyddir dros dro i blant yn unig). • Mae'n annhebygol y bydd unrhyw lety lle ceir mynediad at ystafell wely neu ystafell ymolchi trwy ystafell wely arall, yn cael Pum Seren. • Rydym yn argymell darparu sychwr gwallt ym mhob ystafell wely i westeion (ac eithrio ystafelloedd plant).

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Ystafelloedd Gwely mewn Galeri	• Os lle i ddau o bobl yn unig sydd mewn eiddo, mae'n bosibl cael unrhyw raddiad. Rhaid i ystafell wely mewn galeri gael ei hysbysebu felly yn y pamffled. • Os yw'r eiddo'n lletya mwy na dau o westeion a bod ystafell wely mewn galeri, rhaid hysbysebu hyn yn glir yn y pamffled. Y raddfa uchaf y gellid ei chael yw Pedair Seren. Mae hyn oherwydd diffyg preifatrwydd, arogleuon, cau allan golau a tharfu oherwydd sŵn.
Gwresogi ac Awyru	• Rhaid i ddull gwresogi fod ar gael bob amser a fydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn golygu darparu gwresogyddion ym mhob ystafell wely. • Dylai fod o leiaf un ffenestr sy'n agor yn syth i'r awyr agored ym mhob ystafell wely, yn ogystal â llenni, cysgodlenni neu gaeadau didraidd ar y ffenestri.
Golau	• Rhaid bod golau digonol yn yr holl ystafelloedd gwely a rhaid i'r goleuadau fod â gorchuddion. Disgwylir watedd uwch ac ystod o oleuadau mewn ystafelloedd mwy.

8.10 Ystafelloedd Ymolchi a Thoiledau

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Cyffredinol	• **Ar gyfer unedau nad ydynt yn hunan gynhwysol**, rhaid bod o leiaf un baddon neu gawod ar gyfer pob wyth gwestai sy'n cael eu lletya, ac un toiled ar gyfer pob wyth gwestai, yn hwylus i'w gyrraedd o landin, risiau neu gyntedd cyffredin. Rhaid i'r toiled gynnwys papur tŷ bach a daliwr, brws toiled a bin sbwriel. • Dylai'r ystafell ymolchi gynnwys baddon neu gawod, mat baddon, rheilen dywelion (nid yw bachau a phegiau yn dderbyniol), silff neu arwynebedd gwastad. Os nad yw gwaelod y baddon neu'r gawod yn un gwrthlithr, yna rhaid bod mat gwrthlithr ar gael. Dylid darparu dysgl sebon mewn cawodydd. • Rhaid bod darpariaeth dŵr poeth ar gael ar bob adeg. • Clo neu follt i'w ddarparu ar ddrws pob ystafell ymolchi a thoiled. • Rhaid cael llenni, cysgodlenni neu gaeadau didraidd ar bob ffenestr. (Rhaid cael llen neu fleind didraidd ar ddrysau gwydr i ystafelloedd ymolchi a thoiledau hefyd). • Os nad oes baddon ar gael, rhaid nodi hyn yn y pamffled. • Rhaid cael basn ymolchi ar gyfer ymolchi personol ar gael ym mhob uned, gyda dŵr poeth ac oer ar gael ar bob adeg. Rhaid bod drych uwchben, neu gyferbyn â'r basn ymolchi. Rhaid bod mat baddon a rheilen dywelion. Rhaid cael pwynt eillio ger y drych, gyda golau o ddewis. Mae cael addasydd yn rhywle arall yn yr uned yn dderbyniol, ar yr amod y gellir ei ddefnyddio yn agos at ddrych.

Cyffredinol	• **Ar gyfer unedau hunan gynhwysol**, rhaid bod o leiaf un ystafell ymolchi a thoiled ar gyfer pob wyth gwestai. Dylai'r ystafell ymolchi gynnwys baddon neu gawod, mat baddon, rheilen dywelion (nid yw bachau a phegiau yn dderbyniol), silff neu arwynebedd gwastad a basn ymolchi. Os nad yw gwaelod y baddon neu'r gawod yn un gwrthlithr, yna rhaid bod mat gwrthlithr ar gael. Dylid darparu dysgl sebon mewn cawodydd. • Os nad oes baddon ar gael, rhaid nodi hyn yn y pamffled. • Os cewch fynediad at ystafell ymolchi trwy ystafell wely (heb fod yn en suite), rhaid bod yn glir ym mhob hysbyseb. • Basn ymolchi yn y brif ystafell ymolchi o leiaf 36cm x 24cm (14" x 9") yn fewnol, er yr argymhellir basn ymolchi o faint safonol lle mae gofod yn caniatáu. (Gall basnau ychwanegol a gynigir mewn ystafelloedd en suite neu doiledau ar wahân lle mae'r basn yn y brif ystafell ymolchi yn cydymffurfio, fod yn llai). • Drych uwchben y basn ymolchi neu yn agos ato. • Rhaid cael un toiled â phapur toiled a daliwr, brws toiled, a bin gwaredu gyda bagiau hylendid, neu fin a chaead ym mhob uned. • Rhaid cael llenni, cysgodlenni neu gaeadau didraidd ar bob ffenestr. (Rhaid cael llen neu gysgodlen ddidraidd ar ddrysau gwydr i ystafelloedd ymolchi a thoiledau hefyd). • Dylai dull o ddarparu dŵr poeth fod ar gael bob amser. • Dylid darparu clo neu follt ar ddrws pob ystafell ymolchi/toiled. • Pwynt eillio ger drych gyda golau, os oes modd. Mae cael addasydd yn rhywle arall yn yr uned yn dderbyniol, ar yr amod y gellir ei ddefnyddio yn agos at ddrych.

Gofynion Ychwanegol	
3 Seren	• Lle lletyir mwy na chwech o westeion, dylai cawod fod ar gael. Rhaid iddi fod yn un sy'n gadael y dwylo'n rhydd, ond gellir ei gosod dros faddon, e.e. tap cymysgu.
4 Seren	• Toiled a basn ymolchi ychwanegol (a all fod mewn ystafell ymolchi/ystafell gawod arall) i'w darparu os oes lle i fwy na chwech gysgu yn yr uned. Mae angen cynnal cymhareb ystafelloedd ymolchi o 1:8. • Tywelion (un llaw ac un baddon i bob un) ar gael am dâl ychwanegol neu am ddim.
5 Seren	• Baddon a chawod ar gael yn y brif ystafell ymolchi. (Gellir gwneud eithriadau am gawodydd mynediad lefel a godwyd yn benodol i'w defnyddio gan westeion â phroblemau symudedd.) Mae'n ofyniad ar lefel 5 Seren, er y gellir cynnig eithriadau ar gyfer diffyg baddon os cyflawnir canran uchel yn gyffredinol ar lefel 5 Seren yn yr eiddo, a bod pob adran allweddol arall o ansawdd 5 Seren uchel. Lle nad oes baddon, disgwylir y bydd, er enghraifft, cuddygl mawr â chawod trochi o ansawdd uchel yno. • Baddon neu gawod, toiled a basn ymolchi ychwanegol, os lletyir mwy na chwech o westeion. Mae angen cynnal y gymhareb, e.e. ar gyfer deuddeg o westeion, mae angen dwy ystafell ymolchi neu gawod gyda thoiled a basn (gall un fod yn en suite). • Tywelion wedi eu darparu a'u cynnwys yng nghost y llogi.

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Lloriau	• Rhaid cael gorchudd llawr addas ym mhob ystafell ymolchi/toiled. Dylid ystyried addasrwydd y gorchudd llawr at ddibenion hylendid a chadw tŷ.
Gwresogi ac Awyru	• Darparu gwresogyddion ym mhob ystafell ymolchi lle mae ffenestr allanol. Mae rheilen dywelion wedi'i chynhesu yn dderbyniol. Ni chaiff bylbiau golau sy'n gwresogi eu hannog. • Rhaid cael ffenestr sy'n agor neu system awyru a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ym mhob ystafell ymolchi a thoiled.
Golau	• Rhaid cael golau digonol ym mhob ystafell ymolchi/toiled a rhaid i bob golau fod â gorchudd neu gael eu gwarchod yn ddigonol.

8.11 Y Gegin

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Cyffredinol	• Popty gyda ffwrn, gydag o leiaf ddwy silff, gridyll ac o leiaf pedwar cylch berwi y gellir eu defnyddio ar yr un pryd â'r ffwrn neu'r gridyll. Ar gyfer nifer fwy o bobl h.y. 12 neu fwy, disgwylir i gyfleusterau coginio ychwanegol gael eu darparu. Os dim ond lle i ddau ddeiliad sydd yno, yna gellir darparu dau gylch berwi a ffwrn a gridyll. • Mae microdon yn dderbyniol yn lle un cylch berwi. Mae microdon gyfun (ffwrn, gridyll a microdon) yn dderbyniol fel gridyll neu ffwrn, ar yr amod fod pentan tri chylch ar gael ar wahân hefyd. • Dylai poptai fod yn lân ac mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. • Offer coginio a llestri y gellir eu defnyddio yn y microdon. • Oergell gyda rhan gwneud rhew (oni bai y darperir rhewgell hefyd). Nid yw oergelloedd pantri yn dderbyniol. • Rhaid darparu sinc â bwrdd draenio, rhestl sychu llestri, cyflenwad dŵr poeth a dŵr yfed oer. • O leiaf un arwyneb gwaith hylan. • Ffenestr sy'n agor neu system awyru a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Llenni, cysgodlenni neu gaeadau ar ddrysau gwydr allanol a ffenestri. • Bin gwaredu gwastraff i'w ddarparu, gyda chaead a leinin. • Lle storio addas i fwyd. • Sugnwr llwch i'w ddarparu ym mhob uned, oni ddarperir gwasanaeth glanhau dyddiol. • Lle darperir peiriant golchi llestri, dylai'r llestri a'r offer fod yn ddiogel i'w ddefnyddio ynddo. Dylid darparu llestri ychwanegol, fel nad oes yn rhaid defnyddio'r peiriant wedi pob pryd bwyd. • Darparu digon o le i gadw llestri, cyllyll a ffyrc, cyfarpar cegin a glanhau.

Gofynion Ychwanegol	
4 Seren	• Mynediad at beiriant golchi os nad oes un yn yr uned. Cymhareb o 1 peiriant i bob 5 uned. Gwasanaeth dychwelyd golch ymhen 24 awr yn dderbyniol hefyd. • Mynediad at rewgell os nad oes un ar gael yn yr uned (mae blwch rhew 3*** mewn oergell uned yn dderbyniol). Mae cymhareb o 1 rhewgell fawr i 5 uned ar safle aml uned yn dderbyniol. Ar safleoedd aml uned, dylid ystyried diogelwch eitemau bwyd pob eiddo. Dylid asesu maint y rhewgell ar gyfer nifer y gwesteion, ac ystyried cael rhewgell ychwanegol, os yw'n briodol.
5 Seren	• Rhewgell wedi ei darparu yn yr uned (nid yw blwch rhew yn dderbyniol ar y lefel hon). • Peiriant golchi llestri wedi ei ddarparu yn yr uned (ystyriwch y maint ar gyfer y nifer a letyir yn yr uned). • Peiriant golchi dillad wedi'i darparu yn yr uned (gellir ei darparu mewn golchdy allanol pwrpasol ar safleoedd aml uned, ond rhaid gallu mynd ato 24 awr y dydd). Cymhareb uchafswm o 1 peiriant i bob 5 uned. Nid yw defnyddio peiriant golchi perchennog yr eiddo yn dderbyniol.

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Lloriau	• Rhaid cael gorffeniad neu orchuddion llawr addas ym mhob cegin. Dylid ystyried addasrwydd gorchudd y lloriau at ddibenion cadw tŷ a hylendid.
Gwresogi ac Awyru	• Rhaid cael gwres digonol bob amser a fydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn golygu darparu gwres yn y gegin, os yw'n fawr neu ar wahân. • Dylid cael ffenestr sy'n agor neu system awyru a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
Golau	• Rhaid i geginau gael eu goleuo'n ddigonol, a rhaid i bob golau fod â gorchudd neu gael eu gwarchod yn ddigonol. Dylid darparu lefelau gofynnol o olau er iechyd a diogelwch, ond bydd diffyg olau yn effeithio ar sgorau ansawdd.

8.12 Rhestr Eiddo'r Gegin

Gofynion Mynediad Gofynnol	
Fesul Unigolyn	• **Llestri sy'n cydweddu:** – Powlen grawnfwyd neu gawl, plât mawr a bach, cwpan wy, mwg, cwpan te a soser, gwydrau mawr a bach, gwydr gwin, cyllyll* bwrdd ac ochr, llwyau cawl a phwdin a the, ffyrc* bwrdd a phwdin * Cyllyll a ffyrc: mae'n dderbyniol darparu dwbl y nifer h.y. 2 o bob un yn hytrach na bwrdd ac ochr/pwdin. Dylid ystyried nifer yr eitemau a ddarperir o ran ymwelwyr y gwesteion ac isafswm ac uchafswm nifer y deiliaid.

Fesul Uned	• Ni asesir amrywiaeth y rhestr bresennol o eitemau'n rhy llym ac ystyrir y farchnad y mae'n darparu ar ei chyfer. Bydd disgwyliadau uwch ar lefel 5 Seren. • Soseri llwch – os caniateir ysmygu. • Hambwrdd neu dun pobi. • Cyfleuster sylfaenol i sychu dillad – lein neu restl. • Tun bisgedi neu deisen neu gynhwysydd storio. • Bwrdd bara neu fwrdd torri. • Bin bara. • Cyllell fara. • Brws llawr. • Bwced. • Dysgl menyn. • Cafetiere neu beiriant coffi. • Dysgl caserol gyda chaead. • Cyllell, fforc a dysgl gerfio. • Deunydd glanhau gan gynnwys hylif golchi llestri – sy'n addas i'r cyfarpar a roddir. • Pegiau dillad – o leiaf 24. • Colandr. • Set pupur a halen. • Tynnwr corcyn ac agorwr poteli. • Bocs cyllyll a ffyrc neu rannwr droriau. • Clytiau golchi llestri (Newid bob tro y gosodir o'r newydd). • Mat traed wrth y drysau allanol. • Cadach. • Padell llwch a brws. • Sleis pysgod. • Clwt a/neu fop llawr. • Padell ffrio. • Gratiwr. • Hambwrdd gwneud rhew. • Haearn a bwrdd smwddio (1:5 mewn unedau lluosog ac ar gael yn rhwydd). • Tegell – trydan awtomatig. • Siswrn cegin. • Lletwad. • Jwg fesur. • Jwg laeth. • Powlen gymysgu – mawr a Bach. • Clwt neu fenig popty. • Hambwrdd rhostio. • Dysgl pastai. • Stwnsiwr tatws. • Pliciwr tatws. • Sosbenni – mawr, canolig a bach gyda chaeadau. • Dwy sosban fawr ychwanegol os lletyir 8 neu fwy o westeion. • Dysglau gweini x 4 (yn cynnwys powlen salad a dysglau llysiau). • Rhidyll. • Bylbiau golau sbâr (o leiaf un ar gyfer pob math a ddefnyddir). • Basn siwgr. • Lliain bwrdd (neu un mat lle i bob un). • Llwy fwrdd (o leiaf pedair). • Tebot. • Llieiniau sychu llestri gyda bachau, rheilen neu sugnwyr. • Agorwr tuniau. • Rac dost. • Tostiwr. • Hambwrdd. • Sugnwr llwch. • Cyllell llysiau. • Powlen golchi llestri gyda brws neu sbwng. • Jwg ddŵr. • Chwisg. • Llwy gymysgu bren/ blastig.

9 Cod Ymddygiad

Mae'n ofynnol i'r perchennog/rheolwyr weithredu a chadw at y Cod Ymddygiad canlynol:

- Cynnal safonau gofal am westeion, glendid a gwasanaeth sy'n briodol i'r math o sefydliad;
- Disgrifio'n gywir mewn unrhyw hysbyseb, pamffled neu gyfrwng print neu electronig arall, y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir;
- Gwneud yn glir i ymwelwyr yn union beth a gynhwysir ym mhob pris a ddyfynnir am lety, gan gynnwys trethi, ac unrhyw ordaliadau eraill. Dylai manylion taliadau am wasanaethau/cyfleusterau ychwanegol fod yn glir hefyd;
- Rhoi datganiad clir o'r polisi ar ganslo i westeion adeg bwcio, h.y. dros y ffôn, trwy ffacs ac e-bost yn ogystal â'r wybodaeth argraffedig a roddir;
- Cadw at y prisiau a ddyfynnir adeg bwcio'r llety a gwasanaethau eraill, a pheidio â mynd yn uwch na'r prisiau hyn;

- Cynghori ymwelwyr adeg bwcio, ac yn dilyn unrhyw newid, os yw'r llety a gynigir mewn rhandy ar wahân neu le tebyg, a dweud lle mae'r llety hwnnw ac unrhyw wahaniaeth mewn cysur a/neu fwynderau rhwng y fan honno a'r llety yn y sefydliad;
- Yn dilyn cais, rhoi manylion am daliadau dyledus, a derbynneb os mynnir, i bob ymwelydd;
- Ymdrin yn brydlon a chwrtais â phob ymholiad, cais, archeb a gohebiaeth gan ymwelwyr;
- Sicrhau bod trefniadau ymdrin â chwynion ar gael ac os derbynnir cwynion, yr ymchwilir iddynt yn brydlon a chwrtais, a bod yr ymwelydd yn cael gwybod beth yw'r canlyniad;
- Rhoi ystyriaeth ddyledus i ofynion ymwelwyr gydag anableddau ac ymwelwyr ag anghenion arbennig, a gwneud darpariaeth briodol lle bo hynny'n gymwys;
- Darparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus neu drefniadau cyffelyb, a chydymffurfio â'r holl ofynion cynllunio, diogelwch a statudol eraill;
- Caniatáu i gynrychiolydd Croeso Cymru gael mynediad rhesymol at y sefydliad, ar gais, i gadarnhau y cedwir at y Cod Ymddygiad.

9.1 Eithriadau

Gydag unrhyw eithriadau a ganiateir, mae'n rhaid hysbysebu'r cyfleuster coll yn glir ym mhob cyfrwng. Bydd unrhyw gwynion difrifol gan ddefnyddwyr yn arwain at adolygiad o'r eithriad.

10 Amodau ar gyfer Cymryd Rhan

Mae'n ofynnol i bob sefydliad sy'n cymryd rhan yng nghynlluniau graddio Croeso Cymru wneud y canlynol:

- Bodloni gofynion mynediad gofynnol Croeso Cymru ar gyfer graddio yn y sector llety perthnasol, neu ragori arnynt;
- Cadw at God Ymddygiad Croeso Cymru;
- Cael eu hasesu, ac os cyfyd cwyn, gan gynrychiolydd awdurdodedig o Croeso Cymru;
- Talu ffi cymryd rhan flynyddol;
- Darparu Datganiad Mynediad.

10.1 Newid Perchenogaeth

Pan gaiff sefydliad ei werthu, nid oes modd trosglwyddo'r raddfa bresennol i'r perchennog newydd. Mae'n ofynnol i'r perchennog newydd wneud cais i gymryd rhan yng nghynllun asesu Croeso Cymru.

10.2 Arwyddion

Os yw sefydliad, am ba reswm bynnag, yn peidio â chymryd rhan yng nghynllun graddio Croeso Cymru, rhaid symud pob arwydd arddangos a defnydd print perthnasol ar unwaith.

Pan ddefnyddir graddiad Seren, dylid dangos logo priodol Croeso Cymru gydag ef bob amser.

Mae unrhyw restru mewn cyhoeddiad/gwefan Croeso Cymru ac yn rhwydwaith y Canolfannau Gwybodaeth yn amodol ar barhau i gymryd rhan yng nghynllun graddio Croeso Cymru.

Os bydd methiant i gadw at yr amodau hyn, gall y sefydliad fod yn anghymwys i arddangos na defnyddio ardystiad Croeso Cymru ar unrhyw ffurf o gwbl.

11 Beth i'w wneud os byddwch yn anghytuno â'r Graddiad Seren a roddwyd

Os ydych yn teimlo bod gennych reswm dros anghytuno â'r graddiad Seren a roddwyd i'ch eiddo, neu os ydych yn anghytuno â rhai agweddau ar adroddiad yr Aseswr Ansawdd, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl ar ôl i chi dderbyn yr adroddiad ysgrifenedig.

Gallwch ffonio ein tîm yn Aberystwyth ar **0845 0108020** neu anfon neges e-bost atom yn **quality.tourism@wales.gsi.gov.uk** a cheisiwn ddatrys eich pryderon.

Fel arall, efallai y byddwch am ysgrifennu atom:

Adran Sicrhau Ansawdd,
Croeso Cymru,
Llywodraeth Cynulliad Cymru,
Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth,
SY23 3UR.

Rhoddir y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn gyda phob ewyllys da, a gwnaed pob ymdrech i sicrhau ei chywirdeb. Ni all Croeso Cymru dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw wall neu gamddehongliad. Drwy hyn, eithrir unrhyw atebolrwydd am golled, siom, esgeulustod neu ddifrod arall a achosir oherwydd dibyniaeth ar y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

ISBN argraffu 978 0 7504 9601 8
© Hawlfraint y Goron 2013
WG15023 / G/MH/4298 / 0913